Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 21 HYDREF 2025 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 21 OCTOBER 2025 10.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, *(sedd wag/vacant seat)*

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3** **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar aadeg anfon y rhaglen hon.

**4** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol: -

- 23 Medi 2025
- 2 Hydref 2025 (Arbennig)

**5** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 15 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6** **CWYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN - 04/2024 - 03/2025** (Tudalennau 25 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**7** **CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I ADLEOLI DYSGWYR YSGOL UWCHRADD CAERGYBI I ADEILAD YSGOL NEWYDD AR GYFER DYSGWYR 11-18 OED** (Tudalennau 61 - 96)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**8** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 97 - 98)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol –

"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

9 **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL – ADLEOLI DYSGWYR YSGOL UWCHRADD CAERGYBI I ADEILAD YSGOL UWCHRADD NEWYDD AR GYFER DYSGWYR 11–18 OED** (Tudalennau 99 - 206)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol ar Zoom ar 23 Medi, 2025

DRAFT

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Y Dirprwy Brif Weithredwr<br>Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 15)<br>Y Pennaeth Democratiaeth<br>Pennaeth y Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid (ar gyfer eitemau 7 & 8)<br>Y Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglenni Corfforaethol (GP) (ar gyfer eitemau)<br>Yr Uwch-swyddog Datblygu Prosiectau (AE) (ar gyfer eitem 15)<br>Y Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Y Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Dylan Williams (Y Prif Weithredwr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol), Glyn Haynes, Derek Owen, Bethan H. Owen (Rheolwr y Gwasanaethau Cyfrifeg), Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini) |

---

**1. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd a nodwyd yr ymddiheuriadau y cyfeirir atynt uchod.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG**

Dim i adrodd arno

**4. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2025 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2025 yn rhai cywir.**

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd, i'w gadarnhau, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth yn ymgorffori blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng misoedd Hydref 2025 a Mai 2026.

Cyflwynodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar y newidiadau yn y flaenraglen waith, fel a ganlyn -

- Cyfarfod 21 Hydref 2025 – Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chwythu'r Chwiban 2024/25 a Rhaglen Cysylltu â Gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau – Cytundeb Cydweithio.
- Cyfarfod 25 Tachwedd 2025 – Sylfaen y Dreth Gyngor 2026/27 a Chyllideb Refeniw Ddrafft am 2026/27 (yn amodol ar amserlen gosod cyllideb Llywodraeth Cymru)
- Cyfarfod 16 Rhagfyr 2025 – Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2025/26 a Rhenti Tai a Thaliadau Gwasanaeth 2026/27
- Cyfarfod 27 Ionawr 2026 - Strategaeth Gyfalaf, Gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned - ffioedd a thaliadau, cartrefi preswyl yr Awdurdod Lleol - gosod y tâl safonol am 2026/27, ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol 2026/27 ac Ysgol Uwchradd Caergybi.
- Cyfarfod 24 Chwefror 2026 - Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026/27, Ffïoedd a Thaliadau am 2026/27, Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2026/27 a Chyllideb Gyfalaf 2026/27.
- Cyfarfod 24 Mawrth 2026 - Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2026-2056.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith ddiweddaraf y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng misoedd Hydref 2025 a Mai 2026, gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 6. ADRODD AR HUNANASESU A PHERFFORMIAD

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor/Monitro) yn argymell gwelliant i Gyfansoddiad y Cyngor i gyfuno'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn un ddogfen integredig. Byddai'r newid arfaethedig yn gwneud y Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am yr adroddiad cyfun.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid. Nododd fod cyhoeddi adroddiad Hunanasesu Blynyddol ac Adroddiad Llesiant Blynyddol yn ofyn statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn y drefn honno. Er bod y ddau adroddiad yn deillio o ddeddfwriaeth wahanol, maent yn cynnwys tir cyffredin sy'n dibynnu ar ddata a dadansoddiad tebyg i ddangos eu bod yn cydymffurfio â dwy set wahanol o ofynion statudol. Er mwyn lleihau gwaith dyblygu a sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, ceid cynnig i gyfuno'r ddau adroddiad o dan y teitl Adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad Blynyddol (Llesiant) a diwygio'r Cyfansoddiad i nodi bod yr adroddiad cyfun yn dod yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith. Byddai'r adroddiad cyfun yn parhau i gael ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol a'i oruchwylio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o dan ei gylch gorchwyl statudol.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith y cynnig fel cam ymarferol a chadarnhaol sy'n gymorth i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon wrth gynnal gwaith craffu ac atebolrwydd. Nododd fod y canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn annog gwaith adrodd integredig lle bo modd.

**Penderfynwyd argymell fel a ganlyn i'r Cyngor Llawn –**

- **Cymeradwyo'r newidiadau cyfansoddiadol gofynnol i nodi cyfuno'r Adroddiad ar yr Hunanasesiad Blynyddol a'r Adroddiad ar y Perfformiad (Llesiant) Blynyddol yn un ddogfen integredig o'r enw'r Adroddiad ar yr Hunanasesiad a'r Perfformiad (Llesiant) Blynyddol.**
- **Cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad i nodi mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith fydd yr adroddiad cyfun y cyfeirir ato uchod.**
- **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau cyfansoddiadol gofynnol i weithredu paragraffau 1 a 2 uchod.**

## 7. HUNANASESIAD DRAFFT 2024/25

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor gwaith ei ystyried, adroddiad Pennaeth y Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Hunanasesiad drafft am 2024/25. Mae'r hunanasesiad yn ymarfer blynyddol statudol sy'n gwerthuso pa mor dda y mae'r Cyngor wedi perfformio, y modd y mae'n defnyddio adnoddau a'i drefniadau llywodraethu.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid, yn uchafbwynt sawl mis o waith. Tynnodd ar sail dystiolaeth eang i asesu pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau, yn defnyddio ei adnoddau ac yn cynnal llywodraethu cadarn. Yn ystod 2024, adolygodd a mireiniodd y Cyngor ei ddull hunanasesu i symleiddio a chryfhau'r broses ymhellach. Gan weithio ar y cyd ar draws gwasanaethau, diwygiwyd y templed i ganolbwyntio ar bedwar maes allweddol sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Cynllunio a Pherfformiad Gwasanaethau, Cynllunio'r Gweithlu, Cynllunio a Llywodraethu Ariannol gan gynnwys Risg, Archwilio, Caffael a Rheoli Contractau. Gofynnwyd i bob gwasanaeth werthuso ei berfformiad yn erbyn meini prawf oedd wedi'u diweddaru ac yna cafodd ei herio ar ei ganfyddiadau trwy gyfarfodydd adolygu gwasanaethau. Roedd yr hunanasesiad a ddeilliai o hyn yn crynhoi perfformiad cyffredinol y Cyngor am 2024/25 ac yn tynnu sylw at gryfderau a meysydd a nodwyd yn gyfleoedd i wella.

Pwysleisiodd y Cadeirydd fod hunanasesiad yn broses barhaus yn y Cyngor gydag aelodau portffolio yn mynd ati'n ddygn yn eu meysydd priodol. Roedd asesiad statudol o'r Panel Perfformiad, sy'n ofynnol unwaith ym mhob cylch etholiad, wedi'i drefnu am ddiwedd y flwyddyn, gyda'r hunanasesiad yn rhan sylweddol o'r adolygiad hwnnw. Nododd fod y broses herio o fewn yr hunanasesiad wedi bod yn fanwl a thrylwyr ac y câi ei defnyddio'n adeiladol i ysgogi gwelliant.

Nodwyd, hefyd, fod adborth allanol gan bartneriaid, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr, megis adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru ar wasanaethau cymdeithasol, yn elfen bwysig o'r hunanasesiad, wrth gyflwyno tystiolaeth glir a chadarn i gefnogi'r canfyddiadau.

**Penderfynwyd mabwysiadu'r ddogfen a gyflwynwyd yn "ddrafft gweithredol" a gwahodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi rhagor o ystyriaeth iddi yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2025.**

DRAFT

## 8. MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 1 2025/26

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor gwaith ei ystyried, adroddiad Pennaeth y Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol am Chwarter 1 2025/26.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid. Dangosodd fod 90% o'r dangosyddion, oedd â thargedau a fonitrwyd yn ystod y chwarter, wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau hynny ac wedi'u graddio'n Wyrdd neu'n Felyn. Roedd y cerdyn sgorio wedi'i adolygu am 2025/26, gydag addasiadau wedi'u gwneud, yn cynnwys cyflwyno dangosyddion perfformiad allweddol newydd. Tynnodd sylw at y ffaith bod Dangosydd Tai 03 - nifer cyfartalog y dyddiau a gymerir i ailosod unedau llety (ac eithrio DTL) - wedi'i ddiwygio i eithrio eiddo newydd, fel ei bod yn cyd-fynd ag arfer darparwyr tai rhanbarthol eraill. Roedd y targed wedi'i addasu i 51 diwrnod i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn realistig ond yn dal yn heriol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Carwyn Jones at gyfarfod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 17 Medi, lle trafodwyd adroddiad y cerdyn sgorio'n helaeth a herio dangosyddion tanberfformio.

Adroddodd y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ôl o gyfarfod y pwyllgor ar 17 Medi, gan gadarnhau bod y pwyllgor wedi croesawu'r perfformiad cryf cyffredinol ar ddiwedd y chwarter cyntaf. Roedd y pwyllgor wedi ceisio sicrwydd ynghylch y pum dangosydd tanberfformio oedd yn ymwneud â thai, ailgylchu gwastraff domestig a phrydlondeb ymatebion Rhyddid Gwybodaeth. Gofynnwyd am fwy o eglurhad ynghylch cyflawni gwelliannau yn y meysydd hyn. Rhoddwyd sylw arbennig i'r tanberfformio parhaus wrth ailosod eiddo gwag a thrafodwyd cyflwyno grantiau cyfleusterau i'r anabl a phresenoldeb disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Yn dilyn sicrwydd, roedd y pwyllgor wedi penderfynu nodi'r adroddiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol am Chwarter 1 2025/26, yn cynnwys y meysydd yr oedd y Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio ac yn ymchwilio iddynt i reoli a sicrhau rhagor o welliannau i'r dyfodol, a'u hargymell i'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'r mesurau lliniaru arfaethedig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Jeff Evans am adborth ac adolygiad cynhwysfawr y pwyllgor craffu. Cadarnhaodd fod y Pwyllgor Gwaith yn ymwybodol o'r heriau wrth ailosod eiddo gwag a bod grŵp tasg a gorffen wedi'i gomisiynu i archwilio'r mater. Er bod y duedd yn gwella, câi ymdrechion parhaus eu gwneud i gyrraedd y targed. Nododd, hefyd, gyfarfod oedd ar y gweill gyda Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd i drafod materion a thargedau ailgylchu, gan nodi mai ychydig o awdurdodau yng Nghymru oedd wedi cyrraedd nod ailgylchu 70% Llywodraeth Cymru. Cafodd pob aelod ei annog i roi gwybod i'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio dros Dai am unrhyw wybodaeth yn ymwneud ag eiddo gwag yn eu hardal er mwyn ymchwilio a gweithredu ar unwaith.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad a'r perfformiad cyffredinol cadarnhaol. Wrth nodi bod Dangosydd Perfformiad Allweddol 10 o dan Ofal Cymdeithasol a Llesiant, oedd yn ymwneud ag ymweliadau â Chanolfannau Hamdden, ychydig yn is na'r targed, o bosibl oherwydd tywydd da ar y pryd, tynnodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith sylw at y ffaith bod Dangosydd Perfformiad Allweddol 12, a fesurai nifer y bobl a gymerai ran mewn gweithgareddau Môn Actif, wedi rhagori ar ei darged ac yn cael ei ystyried yn adlewyrchiad cywirach o ymwneud y cyhoedd â gweithgareddau hamdden. Esboniodd y Cynghorydd Neville Evans, Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol bod y Cyngor, hefyd, yn olrhain gweithgareddau Môn Actif, er bod Dangosydd Perfformiad Allweddol 10 yn fesur statudol. Dywedodd fod 6,000 o blant wedi bod yn ymwneud â Môn Actif yn Sioe Môn a bod 588 wedi cymryd rhan mewn gwersi Nofio Diogel ar draethau Ynys Môn.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod sylwadau wedi'u gwneud i Lywodraeth Cymru yn gofyn am adolygu Dangosydd Perfformiad Allweddol 10 i gynnwys gweithgareddau cymunedol Môn Actif. Ategodd fod y cerdyn sgorio'n ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar gyfer yr hunanasesiad. Roedd, hefyd, yn offeryn ar gyfer herio perfformiad ar draws portffolios, gan

ddylanwadu ar sut y caiff tystiolaeth ei chasglu, ei defnyddio a sut yr adroddir arni, hyn oll i yrru gwelliant.

**Penderfynwyd nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth a'r gwasanaeth perthnasol yn eu harchwilio ac yn ymchwilio iddynt er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Mae'r rhain yn ymwneud â Thai (ailosod eiddo gwag a chyflwyno Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), Newid Hinsawdd (ailgylchu gwastraff domestig) ac Iechyd y Cyngor Cyfan (prydlondeb ymatebion Rhyddid Gwybodaeth).**

## 9. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1 2025/26

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith rhoi sylw iddo, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, oedd yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1 hyd at 30 Mehefin 2025.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Tai a Chyllid. Yn yr adroddiad, rhagwelwyd tanwariant diwedd blwyddyn ar y gyllideb refeniw o £1,551k (0.79%). Rhybuddiodd y Cynghorydd Robin Williams ei bod yn anodd rhagweld canlyniad diwedd blwyddyn mor gynnar gan y gallai'r sefyllfa newid yn sylweddol wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Ffactorau oedd yn gyfrifol am hyn oedd y galw am wasanaethau, yn enwedig lleoliadau gofal plant, cyllid grant ychwanegol, gwariant untro annisgwyl, swyddi gwag, dyfarniadau cyflog a chyllido costau cyfraniadau Yswiriant Gwladol cynyddol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod dyfarniadau cyflog ar gyfer staff addysgu a staff nad oeddynt yn addysgu bellach yn hysbys ac y caent eu hadlewyrchu yn ffigurau Chwarter 2. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau cyllid grant rhannol i gefnogi costau cynyddol cyflog athrawon a gâi eu cynnwys yn setliad y flwyddyn nesaf. Tynnodd sylw at y ffaith fod gorwario mewn gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn bryder ac yn her ar draws awdurdodau lleol ar hyn o bryd, er gwaethaf cynnydd o £2 filiwn yn y gyllideb flynyddol. O ran incwm, roedd ffioedd o geisiadau cynllunio a rheoliadau adeiladu wedi gostwng ond caent eu gwrthbwyso gan lefelau incwm uwch na'r disgwyl yn y gwasanaethau Hamdden a Phriffyrdd. Rhagwelid y byddai incwm craidd y Dreth Gyngor yn fwy na'r gyllideb o £514k, er y gallai hyn newid yn ystod y flwyddyn wrth i eithriadau gael eu gosod. Roedd disgwyl i gyllideb premiwm Treth y Cyngor gynhyrchu gwarged o £333k yn dilyn newidiadau i reolau defnyddio trethi busnes ar gyfer llety hunanarlwyo. Roedd hyn wedi peri i nifer o eiddo orfod talu Treth y Cyngor a dod yn atebol am y premiwm ail gartrefi. Rhagwelid apeliadau yn erbyn yr ailddosbarthiad hwn. Roedd y rhagolygon ariannol cynnar yn gadarnhaol ac os gwireddid y tanwariant a ragwelid, byddai'n cryfhau balansau'r Cyngor ac yn rhoi mwy o opsiynau wrth gynllunio at gyllideb 2026/27.

Nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Gwaith yn ymwybodol o'r ffactorau a allai gael effaith ar y sefyllfa ddiwedd y flwyddyn. Er enghraifft, roedd cronfa wedi'i chlustnodi i liniaru risg ad-daliadau Treth y Cyngor oherwydd apeliadau llwyddiannus. Er bod costau cynyddol mewn lleoliadau gofal plant y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, roedd rhaglen Cartrefi Clyd yn parhau i ehangu. Roedd yn fodd i blant gael gofal yn eu cymunedau eu hunain, gan gefnogi eu haddysg a'u lles wrth gynnig dewis arall mwy cost-effeithiol yn lle lleoliadau y tu allan i'r sir.

DRAFT

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B ac C yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig am 2025/26.**

- **Nodi crynodeb o gyllidebau wrth gefn am 2025/26 a nodir yn Atodiad CH.**

- **Nodi gwaith monitro costau asiantaeth ac ymgynghori am 2025/26 yn Atodiadau D ac DD.**

## 10. MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 1 2025/26

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, oedd yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 1, blwyddyn ariannol 2025/26.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Tai a Chyllid. Nododd fod y Cyngor, ym mis Mawrth 2025, wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf o £23.7m ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn dai a £20.594m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai am flwyddyn ariannol 2025/26. Ym mis Gorffennaf 2025, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith £2.529m o lithriad cyfalaf, i'w ddwyn ymlaen o 2024/25, gan ddod â'r rhaglen gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn dai i £25.929m a £20.894m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Ers cynnal y broses gosod y gyllideb, roedd cynlluniau ychwanegol, wedi'u hariannu gan grantiau yn bennaf, wedi'u hychwanegu at y rhaglen, ynghyd ag addasiadau i gyllid, oedd yn gyfanswm o £9.363m. Deuai hyn â'r gyllideb gyfalaf gyffredinol am 2025/26 i £56.186m. Ar 30 Mehefin 2025, dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, fod £7.168m o'r gyllideb wedi'i wario gyda £723k pellach wedi'i ymrwymo, cyfanswm o £7.891m (14%). Fel arfer, roedd Chwarter 1 yn dawel, gyda nifer o gynlluniau cyfalaf wedi'u pwysoli tuag at ran olaf y flwyddyn ariannol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y prosiectau oedd wedi'u tanwario yn cael eu hariannu gan y Cyngor, gan sicrhau nad oedd unrhyw berygl o golli cyllid.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2025/26 yn Chwarter 1.**

- **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol, £9.363m, i'r rhaglen gyfalaf a gwelliannau i gyllid yn unol ag Atodiad C yr adroddiad. Byddai hyn yn arwain at gyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £56.186m a 2025/26.**

## 11. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 1 2025/26

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai am y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Mehefin 2025.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Tai a Chyllid a nododd bod y gyllideb refeniw wedi'i gosod gyda gwarged cyllidebol o £6,291k. £23,029k oedd y gyllideb gyfalaf gros am 2025/26. Roedd cyllid grant o £6,990k yn lleihau'r gyllideb net i £16,038k. Roedd cyfuniad y gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf

addasedig yn creu diffyg cyllidebol cynlluniedig o £9,747k, y câi £6,820k ohono ei ariannu o gronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai. Câi'r £2,927k oedd yn weddill ei ariannu trwy fenthyciad allanol. Roedd cyllideb refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai ar ddiwedd y chwarter cyntaf wedi tangyflawni o £177k, o'i gymharu â'r gyllideb broffiliedig. Rhagwelwyd y byddai gwariant cyfalaf, yn ogystal ag incwm grantiau, o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd y diffyg a ragwelwyd, oedd yn cyfuno refeniw a chyfalaf, bellach yn £9,558k, sef £189k yn llai na'r gyllideb.

Tynnodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol, sylw at gydymdrechion Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol wrth ddatblygu llety ar gyfer unigolion bregus, yn enwedig oedolion ag anghenion arbennig/dysgu. Roedd y fenter hon yn rhan o'r strategaeth ehangach i foderneiddio gwasanaethau ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu a hyrwyddo cyfleoedd i'w galluogi i fyw bywydau llawn, annibynnol yn eu cymunedau eu hunain.

**Penderfynwyd nodi'r isod –**

- **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai am Chwarter 1 2025/26.**
- **Y rhagolwg am 2025/26.**

## 12. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2026/27-2028/29

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2026/27 i 2028/29. Nodai'r Cynllun strategaeth gyllidebol y Cyngor dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys y rhagdybiaethau a gâi eu dwyn ymlaen i'r broses flynyddol o osod cyllideb.

Cyflwynwyd y cynllun gan y Cynghorydd Robin Williams, y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Tai a Chyllid. Ynddo nodwyd gofynion adnoddau tebygol y Cyngor am y tair blynedd ariannol nesaf ac amlinellwyd sut oedd y Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r gofynion adnoddau â'r cyllid oedd ar gael. Roedd y Cynllun Ariannol yn ystyried yr holl newidiadau hysbys yr oedd angen eu cynnwys yn y gyllideb sylfaenol am 2026/27 ac yn gwneud rhagdybiaethau ar y prif ffactorau a gâi effaith ar gyllideb refeniw'r Cyngor – costau cyflogau, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid Llywodraeth Cymru, pwysau demograffig a galw.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 gyd-destun ar ragolygon economaidd ehangach y DU gan nodi mai llywodraeth y DU oedd yn rhoi holl gyllid Llywodraeth Cymru iddi, er bod cyllid canolog y Cyngor yn dod o Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, roedd cyflwr economi'r DU a phenderfyniadau cyllidebol yn cael effaith uniongyrchol ar gyllid Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Roedd amseriad etholiadau'r Senedd, hefyd, yn cael effaith ar setliad llywodraeth leol. Roedd Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gyllid wedi cyhoeddi y byddai cyllideb 2026/27 yn seiliedig ar ddyraniad 2025/26, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant a amcangyfrifir ar oddeutu 2%. Câi cronfa wrth gefn o £400m ei chadw yn ôl i'w dyrannu gan y Llywodraeth newydd. Fodd bynnag, gallai'r cyllid gwirioneddol y byddai'r Cyngor yn ei dderbyn yn y pen draw fod yn is, gan ddibynnu ar y fformiwla ddosbarthu.

Ymhelaethodd y Swyddog Adran 151 ar y pwysau cyllidebol cenedlaethol a lleol oedd yn wynebu'r Cyngor dros gyfnod y Cynllun, fel y manylir yn adran 5 o'r adroddiad. Drwy ystyried yr holl faterion hyn, ochr yn ochr â rhagolygon incwm y Cyngor (adran 6) a chymhwyso'r rhagdybiaethau a nodir yn atodiad 2 yr adroddiad, roedd yn bosibl amcangyfrif y gyllideb refeniw am y tair blynedd hyd at 2028/29 (cyfeirir at hyn yn Nhabl 8). Roedd y gyllideb

refeniw net amcangyfrifedig yn adlewyrchu cynnydd o 11.2% dros y cyfnod hwn. O dan y senario mwyaf tebygol, byddai angen £12.63m ychwanegol yn 2026/27 i fynd i'r afael â phwysau chwyddiant darparu'r gwasanaeth presennol a bodloni pwysau galw. Gan dybio cynnydd o 2% yn yr AEF o £4.98m a chynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor (2.853m), roedd bwlch cyllidebol o £4.796m yn parhau. Wrth ystyried y £2.46m o gronfeydd wrth gefn a ddefnyddiwyd i gydbwyso cyllideb y flwyddyn flaenorol, roedd y diffyg yn cynyddu i £7.256m. Roedd gwasanaethau'n adolygu eu cyllidebau i nodi arbedion posibl ac roedd pwysau gwleidyddol yn cael ei roi ar Lywodraeth Cymru drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ailystyried ei chynnydd cyllido arfaethedig o 2% yn unig.

Roedd y Cyngor yn cadw'r opsiwn i ddefnyddio balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn i helpu i fynd i'r afael â'r diffyg a ragwelid yn 2026/27. Fodd bynnag, roedd hwn yn fesur tymor byr ac nid oedd yn dileu'r angen i ddatrys y bwlch ariannu yn y tymor hir. Roedd y Cynllun Ariannol Canolig yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor, ar hyn o bryd, yn wynebu ei sefyllfa ariannol fwyaf heriol ac y byddai angen gwneud penderfyniadau anodd wrth osod cyllideb gytbwys yn 2026/27 a thu hwnt. Fel gyda blynyddoedd blaenorol, byddai angen cyfuniad o arbedion yn y gyllideb, cynnydd uwchlaw chwyddiant yn Nhreth y Cyngor a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus i gyflawni cyllideb gytbwys. O ran ysgolion, nododd y Swyddog Adran 151 bod balansau ysgolion yn dirywio ac roedd nifer gynyddol o ysgolion mewn perygl o fynd i gyflwr critigol yn y tymor byr i ganolig, er eu bod, at ei gilydd, mewn sefyllfa ariannol sefydlog.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod sylwadau'n cael eu gwneud i Lywodraeth Cymru drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn eu hannog i ailystyried ei dull o ymdrin â chyllideb y flwyddyn nesaf. Roedd yn debygol y byddai’r cap arfaethedig o 2% ar y cynnydd mewn cyllid yn peri heriau sylweddol i bob cyngor yng Nghymru. Pwysleisiodd fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau setliad ariannol tecach i Ynys Môn. Tynnodd y Cadeirydd sylw, hefyd, at y ffaith bod gofyn i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys o fewn amserlen dynn iawn, gan atgyfnerthu her y dasg sydd o'i flaen.

**Penderfynwyd nodi cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27 i 2028/29 a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ynddo.**

## 13. CAIS TRWY DDEISEB AM ADOLYGIAD CYMUNEDOL O GYNGOR CYMUNED PENTRAETH

Cyflwynwyd, i’r Pwyllgor gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth mewn ymateb i gais trwy ddeiseb am adolygiad cymunedol o Gyngor Cymuned Pentraeth.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid. Nododd fod rhai o etholwyr cymuned Pentraeth wedi cyflwyno deiseb ddilys, ar 28 Gorffennaf 2025, yn galw ar y Cyngor i gychwyn adolygiad llywodraethu cymunedol adran 31 o'u cyngor cymuned. Cyfeiriodd y ddeiseb at y ffaith nad oedd hyder yn y cyngor oherwydd y cafwyd methiannau parhaus honedig, penderfyniadau gwael ac nad oedd tryloywder mewn llywodraethu a chynrychiolaeth leol. Galwodd y ddeiseb, hefyd, am atal unrhyw waith cyfethol neu benodiadau etholiadol i'r cyngor cymuned hyd oni byddai’r adolygiad wedi’i gynnal. Mewn ymateb, ysgrifennodd Swyddogion yn ôl at drefnydd y ddeiseb i egluro bod gweithdrefnau etholiadol a chyfethol wedi'u dilyn yn briodol ac nad oedd gan y Cyngor Sir unrhyw awdurdod cyfreithiol i ymyrryd yn y mater. Er gwaethaf dau gyfle diweddar i alw am etholiad, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ac, felly, roedd pedair swydd wag wedi'u prosesu trwy gyfethol a byddai tair swydd wag arall, hefyd, yn cael eu prosesu fel hyn.

Esboniodd y Cynghorydd Carwyn Jones mai pwrpas adolygiad cymunedol oedd asesu a oedd ffiniau wardiau cymunedol presennol yn parhau i fod yn addas yng ngoleuni newidiadau poblogaeth neu unrhyw ddatblygiadau eraill. Yn ddelfrydol, dylai adolygiad o'r fath gael ei gynnal cyn i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiad etholiadol. Cynhelid adolygiad o'r fath gan y Comisiwn yn Ynys Môn rhwng Medi 2027 a Gorffennaf 2028. Roedd y Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad cymunedol adran 31 ar draws yr ynys cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2027, gan ddechrau'r broses erbyn diwedd 2025. Er mwyn sicrhau defnydd effeithlon o arian cyhoeddus ac adnoddau staffio, yr argymhelliad oedd cynnal adolygiad Pentraeth fel rhan o'r adolygiad o'r ynys ehangach.

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Gwaith, eglurodd y Pennaeth Democratiaeth fod adolygiad cymunedol adran 31 yn ystyried y trefniadau ar gyfer cynrychiolaeth ar gynghorau cymuned gan gynnwys nifer aelodau'r cyngor. Gallai'r adolygiad, hefyd, archwilio sut roedd wardiau wedi'u trefnu, gan gynnwys nifer y wardiau a'u ffiniau. Cynhelid yr adolygiadau hyn i sicrhau bod trefniadau etholiadol yn parhau i fod yn briodol cyn etholiad llywodraeth leol ac ystyried unrhyw newidiadau eraill yn y gymuned. O ran yr amserlen, eglurodd y Pennaeth Democratiaeth fod y broses yn cynnwys pedwar prif gam – cyhoeddusrwydd cychwynnol, ymchwiliadau cychwynnol ac ymgynghori, cynigion drafft ac ymgynghori ar y cynigion hynny ac argymhellion terfynol. Trefnwyd cynnal y ddau gam cyntaf rhwng mis Rhagfyr 2025 ac Ebrill 2026, gyda'r camau sy'n weddill wedi'u cynllunio ar gyfer rhwng mis Mehefin 2026 a mis Rhagfyr 2026. Byddid yn oedi'r broses ar gyfer etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026. Byddid, hefyd, yn ceisio mewnbwn gan y Comisiwn Ffiniau.

Wrth ymateb i gais am sicrwydd y câi adolygiad cymunedol ei ystyried yn ddigwyddiad arferol ac, oherwydd y cais penodol, y byddid yn rhoi blaenoriaeth i adolygiad o Gyngor Pentraeth yn rhan o'r broses, cadarnhaodd y Pennaeth Democratiaeth fod cynnal adolygiad cymunedol yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2013. Roedd canllawiau newydd wedi'u cyhoeddi ers hynny yn 2022 a byddid yn eu dilyn yn y broses adolygu. Roedd y Cyngor wedi cael gwybod y byddai Comisiwn Ffiniau Cymru yn cynnal adolygiad o'r ffiniau yn 2027 pan gynhelir etholiadau llywodraeth leol. Bwriad y Cyngor oedd cynnal adolygiad cymunedol cyn yr etholiadau hynny. O ystyried y cais am adolygiad o Gyngor Pentraeth, câi ei gynnwys yn y trefniadau hynny os byddai'r Pwyllgor gwaith yn cymeradwyo hynny.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno i gynnal Adolygiad Cymunedol adran 31 o Gyngor Cymuned Pentraeth yn unol â chais trwy ddeiseb gan aelodau'r etholaeth.**

- **Cynnal yr adolygiad yn rhan o adolygiad cymunedol adran 31 ledled yr Ynys.**

## 14. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaëedig."**

## 15. PRYNU HEN SAFLE PEBOC, LLANGEFNI

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a nodai'r ffactorau allweddol mewn perthynas â'r bwriad i brynu hen safle Peboc yn Llangefni. Manylai'r adroddiad ar y rhesymeg dros y bwriad i'w brynu, y dull o'i brynu a'r goblygiadau cost a chyllido.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Gary Pritchard, yr Arweinydd a'r Aelod Portffolio dros Ddatblygu Economaidd, gan nodi mai'r cynnig oedd bod y Cyngor yn defnyddio cyllid cyfalaf a gyflwynir gan Borthladd Rhydd Ynys Môn i brynu hen safle Peboc a chlirio'r safle, ei baratoi a sicrhau mynediad iddo. Trwy wneud y gwaith cyn-ddatblygu hwn, ynghyd â chymhellion Treth Porthladd Rhydd, y nod oedd denu buddsoddiad y sector preifat.

Adroddodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn gyson, bod angen hwyluso lle busnes o ansawdd uchel i feithrin twf, cynorthwyo arloesedd a darparu swyddi o ansawdd uchel. Roedd angen swyddi a buddsoddiad ar Ynys Môn a Llangefni yn benodol. Roedd Peboc wedi'i ddynodi'n safle cyflogaeth wedi'i ddiogelu ac wedi'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru yn Barth Menter. Polisi'r Cyngor oedd ailddefnyddio tir llwyd i berwyl economaidd. Roedd ailddatblygu Peboc yn unol â pholisi ac, felly, nid oedd angen i'r Cyngor ryddhau tir glas ar gyfer datblygu. Roedd Peboc, hefyd, yn rhan o safle Treth Canol Ynys Môn oedd yn golygu ei fod yn elwa ar gyllid cyfalaf cychwynnol a chymhellion Treth Porthladd Rhydd oedd yn gwella hyfywedd y safle i'r sector preifat. Roedd rhesymeg glir dros ei brynu i fynd i'r afael â phroblemau'r safle, denu buddsoddiad mewn ardal oedd mewn angen a diwallu angen tystiolaethol a chynyddol am arwynebedd llawr busnes i ategu cyfleoedd datblygu economaidd sylweddol oedd ar y gweill. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith a wnaed hyd yn hyn i hwyluso gwaith datblygu'r safle, gan gynnwys caniatâd cynllunio, y strategaeth ar gyfer prynu'r safle, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, a'r ystyriaethau dan sylw.

Dangosodd y Pwyllgor Gwaith gefnogaeth i'r cynnig. Roedd yn cydnabod ei fod yn gyfle gwerthfawr i ailddefnyddio safle a fu'n segur ers amser maith a sicrhau cyflogaeth yr oedd dirfawr ei hangen yn y rhan hon o Ynys Môn. Nodwyd bod y cynnig yn cyd-fynd ag un o brif amcanion strategol y Cyngor - ysgogi adfywio economaidd a chymunedol a chefnogi'r economi a busnesau lleol i dyfu a ffynnu.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod adroddiad wedi dod i law yswirwyr y Cyngor a rhoddodd grynodeb i'r aelodau o'i brif ganfyddiadau.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r egwyddor o brynu hen safle Peboc gan ddefnyddio cyllid cyfalaf cychwynnol Porthladd Rhydd Ynys Môn.**
- **Dirprwyo'r awdurdod i'r Prif Weithredwr, ochr yn ochr â'r Swyddog Adran 151, brynu safle Peboc unwaith y byddai'r trafodaethau'n dod i ben. (Roedd y perchnogion presennol wedi derbyn cynnig dros dro).**
- **Dirprwyo'r awdurdod i'r Prif Weithredwr, ochr yn ochr â'r Swyddog Adran 151, drafod y taliadau iawndal a'u talu i'r defnyddwyr presennol.**

**Y Cynghorydd Robin Williams**
**Cadeirydd**



DRAFT

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gary Pritchard<br><br>Cynghorwyr Carwyn Jones, Robin Williams, Alun Roberts, Nicola Roberts, Neville Evans, Dafydd Roberts a Dyfed Wyn Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO)<br>Swyddog Achos Arweiniol - Prosiectau Mawr (IWJ)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu Gwasanaeth Pwyllgorau (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Jackie Lewis, Derek Owen, Llio Angharad Owen, Dylan Rees, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Sonia Williams.<br><br>Mr Gary Soloman a Ms Leticia Mandra – Burgess Salmon Solicitors (mewn perthynas ag eitem 6) |

**1 YMDDIHEURIADAU:**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT:**

Heb dderbyn unrhyw ddatganiad.

**3 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG**

Dim i'w adrodd.

**4 YMATEB I'R HYSBYSIAD GWELLA RHEOLI ADEILADU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, oedd yn amlinellu'r ymatebion i'r hysbysiad gwella rheolaeth adeiladu.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Gweinidogion Cymru wedi hysbysu'r Cyngor, fis Ebrill 2025, fod ymchwiliad wedi'i ei ddechrau wedi iddynt dderbyn honiad fod Tîm Rheoli Adeiladu'r Cyngor yn torri Rheolau Gweithredu Safonol (Cymru) 2024. Cynhaliwyd ymchwiliad mewnol brys i bennu a oedd yr honiad yn wir a chymerodd y Cyngor gamau brys a amlygwyd yn yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd ei bod yn bwysig fod gan y Cyngor wybodaeth am y gwendidau sydd wedi digwydd, a bod yr argymhellion yn yr adroddiad eisoes wedi derbyn sylw cyn derbyn cyngor gan yr Arolygiaeth, a bod gwelliannau wedi'u gwneud i wella'r gwasanaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones fod ymateb cynhwysfawr wedi'i ddarparu ar gyfer yr hysbysiad gwella rheolaeth adeiladu.  Gofynnodd a oedd y gwaith sy'n cael ei gwblhau gan y Tîm Rheoli Adeiladu yn cydymffurfio â safonau perthnasol y blynyddoedd blaenorol, a pha sicrwydd ellir ei gynnig na fydd materion eraill yn codi yn y dyfodol mewn perthynas â diogelwch adeiladau.

Dywedodd y Prif Weithredwr nad oedd y Cyngor wedi ymateb i'r newidiadau i'r Rheolau Safonau Gweithredu o fewn yr amserlen.  Mae staff y Tîm Rheoli Adeiladu yn brofiadol ac yn meddu ar y wybodaeth ofynnol o ran deddfwriaeth rheoli adeiladu, ac mae hyfforddiant bellach yn cael ei gynnig i sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda'r safonau newydd.

Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod capasiti'r Tîm Rheoli Adeiladu wedi'i gryfhau dros dro i sicrhau bod gan y tîm y sgiliau a'r gallu priodol.  Mae Swyddog profiadol wedi cynnal adolygiad ar geisiadau rheoli adeiladu hanesyddol rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025, ac nid oes unrhyw faterion wedi'u codi mewn perthynas â'r penderfyniadau a wnaed gyda'r ceisiadau rheoli adeiladu.  Dywedodd ei fod yn hyderus fod y penderfyniadau cywir wedi'u gwneud a bod y Tîm yn gweithio'n effeithiol ac yn cydymffurfio gyda cydymffurfiaeth statudol.

Gofynnodd Arweinydd y Cyngor a oes cynllun hyfforddi a gweithlu ar waith mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.

Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod hyfforddeion a'r Swyddog Cymorth Technegol yn y gwasanaeth wedi dechrau rhaglen hyfforddiant i gael y sgiliau a'r cymwysterau gofynnol i gwblhau gwaith yn unol â deddfwriaeth newydd.

Dywedodd y Prif Weithredwr y cydnabyddir, ar lefel genedlaethol, fod diffyg arbenigedd a sgiliau yn y maes rheoli adeiladu. Oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth, bydd rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi ymhellach er mwyn creu gweithlu proffesiynol.  Mae Awdurdodau Lleol yn darparu hyfforddiant i hyfforddeion, ond weithiau bydd y staff hyn yn gadael yr awdurdod ac mae'n broses gyson o orfod hyfforddi staff newydd. Dywedodd fod cadw staff yn bwysig er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth.

**PENDERFYNWYD :-**

- **I gymeradwyo ymateb y Cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r Hysbysiad Gwella Rheoli Adeiladu.**
- **gyda chymeradwyaeth blaenorol Cadeirydd y Cyngor, i atal hawl y Pwyllgor Sgriwtini i alw'r penderfyniad hwn i mewn. Byddai gohirio'r penderfyniad i ganiatáu cyfnod galw i mewn gan y Pwyllgor Sgriwtini yn niweidiol gan ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn 14 Hydref, 2025, a dangos sut mae'n cydymffurfio â'r Hysbysiad.**

**5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni ym mharagraff Atodlen 12A y Ddeddf honno. Sef gwybodaeth y gellid cynnal hawliad i fraint broffesiynol gyfreithiol mewn perthynas â hi mewn achos cyfreithiol."**

**6 HER GYFREITHIOL BOSIB I'R PENDERFYNIAD I ROI CANIATÂD CYNLLUNIO I FFERM SOLAR ALAW MÔN (DATBLYGIAD O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL)**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ynghylch yr her gyfreithiol bosibl i'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio i Fferm Solar Alaw Môn.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod cyfarfod llawn Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 25 Medi 2025 wedi dod i'r casgliad y dylid ymgymryd â Her Gyfreithiol i benderfyniad Llywodraeth Cymru i gymeradwyo'r caniatâd cynllunio i Fferm Solar Alaw Môn. Nododd fod y Cyngor wedi herio'r penderfyniad i ganiatáu'r cais gan fod y Cyngor wedi mynegi pryderon drwy gydol y broses gynllunio.

Dywedodd Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fod gwaith sylweddol wedi'i wneud ynghylch a oes posibilrwydd i herio'r penderfyniad. Mae'r Cyngor wedi adolygu Barn Bargyfreithiwr Arbenigol ynglŷn â'r sail ar gyfer cyflwyno her gyfreithiol i'r Uchel Lys. Mae'r Cwnsler o'r farn bod siawns gref iawn o herio'r caniatâd a roddwyd yn llwyddiannus.

**PENDERFYNWYD:-**

- **cyfarwyddo Swyddogion i herio'r caniatâd a roddwyd i'r cais Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cyf. DNS-3274702) gan Weinidogion Cymru dan adran 288 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (adran 288(4) ac adran 284(3)(aa) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990);**
- **rhoi awdurdod i ryddhau arian er mwyn cyflwyno'r her hon yn unol â'r awdurdod a roddwyd iddynt yng Nghyllideb y Cyngor 2025/2026 ac yn amodol ar fonitro parhaus a chefnogaeth y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151;**

- **gyda chymeradwyaeth blaenorol Cadeirydd y Cyngor, i atal hawl y Pwyllgor Sgriwtini i alw'r penderfyniad hwn i mewn.  Byddai oedi'r penderfyniad er mwyn i'r Pwyllgor Sgriwtini ei alw i mewn yn cael effaith negyddol am fod rhaid cyflwyno'r her gyfreithiol i'r Uchel Lys erbyn 7 Hydref, 2025 fan bellaf.**

**Y CYNGHORYDD GARY PRITCHARD**
**Cadeirydd**

Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 21 Hydref 2025 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Gary Pritchard |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Tachwedd 2025 – Mehefin 2026;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

**-**

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy'.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E | Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Gweler uchod. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Gweler uchod. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E | Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Ddim yn berthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Tachwedd 2025 – Mehefin 2026 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Cyngor Sir Ynys Môn

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Tachwedd 2025 – Mehefin 2026

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 10 Hydref 2025

Tachwedd 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 25.11.25 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Cymeradwyo'r Cyfrifon Terfynol | Cyng Carwyn Jones | Cyngor Llawn 9.12.25 |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.11.25 |
| | Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2024/25 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.11.25 |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 6.11.25 |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 6.11.25 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 2, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 6.11.25 |
| | Sylfaen y Dreth Gyngor 2026/27 | Cyng Robin Williams | |
| | Cyllideb Refeniw drafft 2026/27 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 6.11.25<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.11.25 |
| | Cynllun Strategol Addysg Ddigidol | Cyng Dafydd Roberts | Pwyllgor Sgiwtini Partneriaeth ac Adfywio 13.11.25 |
| | Rhaglen Cysylltu â Gwaith, Adran Gwaith a Phensiynau – Cytundeb Cydweithio | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cynigion Grant Uchelgais Gogledd Cymru | Cyng Gary Pritchard | |

## Rhagfyr 2025

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 16.12.25 2025 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Rheoli'r Trysorlys – Adolygiad Canol Blwyddyn 2025/26 | Cyng Robin Williams | Cyngor llawn 5.3.26 |
| | Rhenti a thaliadau gwasanaethau tai 2026/27 | Cyng Robin Williams | |

## Ionawr 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 27.1.26 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Strategaeth Gyfalaf | Cyng Robin Williams | Cyngor llawn 5.3.26 |
| | Gwasanaethau gofal cymdeithasol di-breswyl yn y gymuned – ffioedd a thaliadau 2026/27 | Cyng Alun Roberts | |
| | Cartrefi preswyl yr awdurdod lleol i bobl hŷn – pennu ffi safonol 2026/27 | Cyng Alun Roberts | |
| | Ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol ar gyfer 2026/27 | Cyng Alun Roberts | |
| | Adroddiad gwrthwynebu a dod i benderfyniad terfynol am Ysgol Uwchradd Caergybi | Cyng Dafydd Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 21.1.26 |

## Chwefror 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 24.2.26 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.2.26 |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.2.26 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.2.26 |
| | Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026/27 | Cyng Robin Williams | Cyngor llawn 5.3.26 |
| | Ffioedd a thaliadau 2026/27 | Cyng Robin Williams | |
| | Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2026/27 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.2.26<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.2.26<br>Cyngor llawn 5.3.26 |
| | Cyllideb Gyfalaf 2026/27 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.2.26<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.2.26<br>Cyngor llawn 5.3.26 |
| | Datganiad polisi trwyddedu alcohol ac adloniant rheoledig | Cyng Nicola Roberts | Cyngor llawn 5.3.26 |

## Mawrth 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 24.3.26 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.3.26 |
| | Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2026-2056 | Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.3.26 |

## Ebrill 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 28.4.26 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |



## Mai 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Mai 2026 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Mehefin 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Mehefin 2026 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau |

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 21/10/2025 |
| Pwnc: | Cwynion a Chwythu'r Chwiban 04/2024 – 03/2025 |
| Aelod(au) portffolio: | |
| Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| Awdur yr adroddiad: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| Aelodau lleol: | Pob Un |

A – Argymhellion a rhesymau

**Argymhellion**

(a) Gweithredu, cyn gynted â phosibl:

- cyflwyno dashfwrdd Power BI ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr, mewn perthynas â chwynion am eu gwasanaeth.
- hyfforddiant ar gyfer swyddogion cwynion, a'u dirprwyon, ar ofal cwsmer a chydraddoldeb/amrywiaeth
- nodyn canllaw wedi'i ddiweddaru ar ddelio â chwynion yn effeithiol.

(b) Ar ôl ystyried y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2024/2025, gofyniad bod data perfformiad presennol ar gwynion gwasanaethau yn dod yn eitem sefydlog yn y cyfarfodydd rheolaidd rhwng Penaethiaid Gwasanaeth/Cyfarwyddwyr a'u harweinwyr Pwyllgor Gwaith (Aelodau Portffolio).

(c) Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i atgoffa gwasanaethau o'r angen i:

- weithredu unrhyw argymhellion gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac adrodd i'r Ombwdsmon eu bod wedi eu cwblhau o fewn yr amserlen a osodwyd
- cofnodi'n rheolaidd unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i gwynion, adnabod unrhyw batrymau a gweithredu mesurau lliniaru addas.

(d) Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ymateb i Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024/25 yn ôl yr angen ym mharagraff olaf ond un y Llythyr o dan sylw.

**Rhesymau**

**Cyflwyniad**

Gall cwynion ddarparu gwybodaeth werthfawr am berfformiad gwasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys barn defnyddwyr gwasanaeth. Gellir defnyddio'r data hwn, lle bo'n bosibl ac yn briodol, i wella darpariaeth gwasanaeth. Mae'r ddolen ar gyfer y Polisi Cwynion Corfforaethol yma.

**Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am gwynion gwasanaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 01/04/2024 a 31/03/2025**.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am ddatgeliadau chwythu'r chwiban a wnaed yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r ddolen i'r Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban ar gael yma.

Darperir gwybodaeth hefyd am y cod ymddygiad cwynion. Adroddir ar y rhain yn chwarterol i'r Pwyllgor Safonau, ac yn ffurfiol yng nghyfarfodydd arferol y Pwyllgor. Mae'r dolenni at yr adroddiadau hyn ar gyfer y cyfnod perthnasol isod.

Chwarter 1, 2 a 3
Chwarter 4

Mae **Atodiad 4** yn cynnwys crynodeb o'r Cod Ymddygiad ar gyfer cwynion a chwythu'r chwiban.

Mae cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn trefn statudol wahanol, yn benodol Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 ac fe'u hystyrir gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Ar gyfer unrhyw un sydd eisiau gwybodaeth bellach, bydd y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn yr adroddiad perthnasol ym mis Tachwedd 2025, ac yna'n ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Nid yw cwynion am ddefnydd y Cyngor o'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, ond fe adroddir arno'n flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg, sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cael ei ystyried yn flynyddol gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Mae unrhyw gwynion am yr iaith Gymraeg hefyd yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Llywio Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb, ac fe adroddir ar ddata cwynion fel rhan o'r cerdyn sgorio corfforaethol a'r ddogfen gyflawni flynyddol. Ar gyfer unrhyw un sydd eisiau gwybodaeth bellach, mae'r ddolen i'r Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg ar gael yma

## 1. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Efallai bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn ystyried cwynion gan y cyhoedd sy'n ymwneud â gwasanaethau. Mae pwerau'r OGCC ar gyfer hyn yn disgyn dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

I ysgogi ymchwiliad, mae'n rhaid i'r OGCC fod yn fodlon fod cwyn wedi mynd drwy'r weithdrefn gwyno leol. Mae OGCC yn ceisio cwblhau ymchwiliadau cyn

pen 12 mis o dderbyn cwyn.

Yn ogystal â phwerau ymchwiliol, mae OGCC hefyd yn cynnig canllawiau a chefnogaeth. Er enghraifft, Polisi Ymdrin â Chwynion, a gyhoeddwyd dan Adran 38 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Defnyddiwyd darpariaethau'r polisi model er mwyn datblygu Polisi Cwynion y Cyngor. Cafodd ei adolygu ddiwethaf yn 2024.

**2. Beth sy'n cael ei ystyried yn gŵyn?**

**2.1 Mae OGCC yn ystyried cwyn fel:**

- Mynegiad o anfoddhad neu bryder **a wnaed**
- Yn ysgrifenedig neu ar lafar, neu drwy unrhyw ddull cyfathrebu arall **ac**
- A wnaed gan un, neu fwy o aelodau'r cyhoedd **am**
- Weithredoedd darparwr cyhoeddus neu ddiffyg gweithredu, neu safon y gwasanaeth a ddarparwyd **a**
- Rhywbeth sydd angen ymateb.

**Noder:**

**Cais am Wasanaeth** - *Dylid nodi fod cwyn yn wahanol i 'gais am wasanaeth' dechreuol.* Nid yw cais am wasanaeth yn gŵyn (e.e. gall cais fod ar gyfer atgyweirio golau stryd diffygiol neu wastraff bin na gafodd ei gasglu). Bydd cwyn yn codi dim ond pe na fyddai'r cais am wasanaeth yn cael sylw teilwng.

**2.2 Cwynion Cam 1**

Mae'n well delio gyda chwyn cyn gynted â phosibl; yn ddelfrydol gyda'r pwynt cyswllt cyntaf. Os yw hyn yn bosibl, disgwylir i'r maes gwasanaeth perthnasol ymateb i'r gŵyn cyn pen **deg diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn.**

**Cwynion Cam 2**

Cynhelir ymchwiliad Cam 2 os nad yw cwyn wedi derbyn ymateb yng Ngham 1, neu nid ydynt yn fodlon â'r ymateb a

dderbyniwyd.

Dylai'r gŵyn dderbyn ymateb i ymchwiliad **Gam 2 cyn pen ugain diwrnod gwaith.** Gall hyn gymryd mwy o amser os yw'n cynnwys materion cymhleth, neu bod rhaid i sawl maes gwasanaeth gyfrannu i'r ymateb. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid hysbysu'r achwynydd o'r rhesymau dros unrhyw oedi, a phryd allent ddisgwyl ymateb.

Os na fydd achwynydd yn fodlon gyda chanlyniad ymchwiliad Cam 2, gallent atgyfeirio'r mater i'r OGCC. Mae gwybodaeth bellach, galluogi achwynydd i atgyfeirio mater i'r OGCC, yn cael ei darparu ym mhob ymateb Cam 2. Nid oes hawl mewnol ar gyfer adolygiad neu apêl.

## 2.3 Sut y Derbynnir Cwynion

Derbynnir mwyafrif y cwynion drwy e-bost (161), wyneb yn wyneb (7) a thrwy'r post (3). Y bwriad yw annog achwynwyr i ddefnyddio'r system Rheoli Cofnodion Corfforaethol (CRM), yn hytrach nag anfon e-bost. Nid oes rhaid i achwynwyr greu cyfrif er mwyn cyflwyno cwyn (ond fe'u hanogir i wneud hynny) yn ogystal â chyflwyno cwyn fel defnyddiwr gwadd.

## 2.4 Ystadegau Cwynion Corfforaethol

Mae **Atodiad 1** yn amlygu'r data cwynion. Fodd bynnag, nodir y pwyntiau canlynol:

- 171 cwyn ar draws yr holl wasanaethau, gan gynnwys Cam 1 a 2.
- 56 wedi'u olrhain (33.3%)
- 112 heb eu holrhain (66.7%)
- 152 o ymatebion ar amser (88.9%)
- 19 o ymatebion hwyr (11.1%)

2.5 **Cwynion yn ôl Gwasanaeth**

| Amgylchedd/Gwarchod y Cyhoedd |
|---|
| **Cyfanswm y Cwynion**: 11 (6.4% o'r holl gwynion) |
| **Cwynion Cam 1**: 10 cwyn |
| **Cwynion Cam 2**: 1 cwyn |
| **Wedi'u olrhain**: 4 cwyn (cyfradd olrhain o 36.4%) |
| **Heb eu olrhain**: 7 cwyn (63.6%) |
| **Wedi'u gollwng**: 0 cwyn |
| **Ymatebion ar amser**: 10 cwyn (90.9%) |
| **Ymatebion hwyr**: 1 cwyn (9.1%) |

| Priffyrdd ac Eiddo |
|---|
| **Cyfanswm y Cwynion**: 49 (28.5% o'r holl gwynion) |
| **Cwynion Cam 1**: 38 cwyn |
| **Cwynion Cam 2**: 11 cwyn |
| **Wedi'u olrhain**: 8 cwyn (cyfradd olrhain o 16.7%) |
| **Heb eu Olrhain**: 40 cwyn (83.3%) |
| **Wedi'u gollwng**: 1 cwyn |
| **Ymatebion ar amser**: 42 cwyn (85.7%) |
| **Ymatebion hwyr**: 7 cwyn (14.3%) |

| Tai |
|---|
| Cyfanswm y Cwynion: 47 (27.3% o'r holl gwynion) |
| Cwynion Cam 1: 40 cwyn |
| Cwynion Cam 2: 7 cwyn |
| Wedi'u olrhain: 25 cwyn (54.3% wedi'u olrhain) |
| Heb eu Olrhain: 21 cwyn (45.7%) |
| Wedi'u gollwng: 1 cwyn |
| Ymatebion ar amser: 43 cwyn (91.5%) |
| Ymatebion hwyr: 4 cwyn (8.5%) |

| Dysgu |
|---|
| Cyfanswm y Cwynion: 13 (7.6% o'r holl gwynion) |
| Cwynion Cam 1: 12 cwyn |
| Cwynion Cam 2: 1 cwyn |
| Wedi'u olrhain: 0 cwyn (cyfradd olrhain o 0.0%) |
| Heb eu Olrhain: 13 cwyn (100%) |
| Wedi'u gollwng: 0 cwyn |
| Ymatebion ar amser: 10 cwyn (76.9%) |
| Ymatebion hwyr: 3 cwyn (23.1%) |

| Hamdden |
|---|
| **Cyfanswm y Cwynion: 15 (8.8% o'r holl gwynion)** |
| **Cwynion Cam 1: 15 cwyn** |
| **Cwynion Cam 2: 0 cwyn** |
| **Wedi'u olrhain: 14 cwyn (cyfradd olrhain o 93.3%)** |
| **Heb eu Olrhain: 1 cwyn (6.7%)** |
| **Wedi'u gollwng: 0 cwyn** |
| **Ymatebion ar amser: 15 cwyn (100.0%)** |
| **Ymatebion hwyr: 0 cwyn (0%)** |

| Cynllunio |
|---|
| **Cyfanswm y Cwynion: 4 (2.4% o'r holl gwynion)** |
| **Cwynion Cam 1: 2 cwyn** |
| **Cwynion Cam 2: 2 cwyn** |
| **Wedi'u olrhain: 0 cwyn (cyfradd olrhain o 0%)** |
| **Heb eu Olrhain: 4 cwyn (100%)** |
| **Wedi'u gollwng: 0 cwyn** |
| **Ymatebion ar amser: 4 cwyn (100.0%)** |
| **Ymatebion hwyr: 0 cwyn (0%)** |

| Adnoddau |
| --- |
| Cyfanswm y Cwynion: 20 (11.6% o'r holl gwynion) |
| Cwynion Cam 1: 14 cwyn |
| Cwynion Cam 2: 6 cwyn |
| Wedi'u olrhain: 4 cwyn (cyfradd olrhain o 21.1%) |
| Heb eu Olrhain: 15 cwyn (78.9%) |
| Wedi'u gollwng: 1 cwyn |
| Ymatebion ar amser: 17 cwyn (85%) |
| Ymatebion hwyr: 3 cwyn (15%) |

| Gwastraff |
| --- |
| Cyfanswm y Cwynion: 12 (7.0% o'r holl gwynion) |
| Cwynion Cam 1: 10 cwyn |
| Cwynion Cam 2: 2 cwyn |
| Wedi'u olrhain: 1 cwyn (cyfradd olrhain o 8.3%) |
| Heb eu Olrhain: 11 cwyn (91.7%) |
| Wedi'u gollwng: 0 cwyn |
| Ymatebion ar amser: 11 cwyn (91.7%) |
| Ymatebion hwyr: 1 cwyn (8.3%) |

| Cwynion Corfforaethol yn ôl Cam | Rhif |
|---|---|
| Cam 1 | 141 |
| Cam 2 | 30 |
| | |
| **Cyfanswm** | **171** |

**2.6 Dadansoddiad ar Ddata Cwynion Mewnol**

Mae wedi'i atodi yn **Atodiad 2**

**3. Cwynion a Gyflwynwyd i OGCC**

**3.1** Mae Llythyr Blynyddol OGCC 2024/2025 yn **Atodiad 3**.

Yn ystod 2024/2025, derbyniodd swyddfa OGCC y nifer uchaf o gwynion erioed, gyda 3,547 o gwynion cyflawn yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn gynnydd o 10% o'r flwyddyn flaenorol, a 43% yn uwch na 2019/2020. Gweler hefyd newid sylweddol yn y meysydd pwnc, gyda chwynion tai yn cynyddu'n genedlaethol (19% o gymharu â 15% yn 2019/2020). Mae'r cynnydd yng nghwynion Tai OGCC hefyd yn amlwg o fewn ystadegau cwynion mewnol y Cyngor.

Er y cynnydd cenedlaethol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC, derbyniodd y Cyngor 0.32 cwyn i bob 1,000 preswylydd, o gymharu â chyfartaledd Cymru, oedd yn 0.41 i bob 1,000.

**3.2 Nifer y Cwynion yn erbyn Cyngor Sir Ynys Môn yn 2023/2024 a 2024/2025**

| Tueddiadau Perfformiad | 2023/24 | 2024/25 | Newid |
|---|---|---|---|
| Cwynion OGCC | 38 | 22 | - 42% |

Mae'r data hwn yn dangos gostyngiad yn nifer y cwynion dros y cyfnodau perthnasol. Yn ystod 2023/2024, roedd 24% o gwynion yn ymwneud ag ymdriniaeth y Cyngor o'r cwynion eu hunain, ac mae'n awgrymu gwelliant yn y modd y mae cwynion yn cael eu datrys ar lefel leol; gan osgoi gorfod eu trosglwyddo ymlaen i OGCC.

**3.3 Canlyniadau Cwynion i'r OGCC**

O'r ddau ar hugain o gwynion a dderbyniodd yr OGCC, roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

| Canlyniad | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Penderfyniad i beidio ag ymchwilio | 34% (14 achos) | 40% (8 achos) |
| Cwynion cynamserol | 32% (13 achos) | 30% (6 achos) |
| Mater y tu hwnt o awdurdodaeth | 10% (4 achos) | 25% (5 achos) |
| Datrysiad cynnar (ymyrraeth) | 24% (10 achos) | 5% (1 achos) |

| | | |
|---|---|---|
| Ymchwiliadau | 0 | 0 |

* Ceir eglurhad ynglŷn â'r anghysondebau sy'n ymddangos rhwng nifer y cwynion a dderbyniwyd a'r cwynion a gaewyd yn Llythyr Blynyddol OGCC:-

*"2023/2024*
*Cawsom 38 o gwynion am Gyngor Sir Ynys Môn yn 2023/24 a gwnaethom gau 41 – roedd rhai cwynion wedi cael eu trosglwyddo o'r flwyddyn flaenorol.*

*2024/2025*

*Cawsom 22 o gwynion am Gyngor Sir Ynys Môn a chau 20 - roedd rhai cwynion wedi cael eu trosglwyddo o'r flwyddyn flaenorol."*

### 3.4 Ymyrraeth gan OGCC

Mae ymyrraeth gan OGCC yn cyfeirio at y cwynion hynny sydd wedi'u hasesu, ac mae'r OGCC yn ystyried y gall ymyrraeth gynnar fod yn bosibl heb ymchwiliad. Heb os, mae hyn hefyd yn awgrymu y byddai cyngor wedi gwneud mwy yn ystod Cam 2 i adfer y mater yn fewnol, ac osgoi trosglwyddo ymlaen i OGCC.

Yn 2023/2024, roedd y gyfradd ymyrraeth yn 24% (10 achos). Yn 2024/2023, roedd y gyfradd ymyrraeth yn 5% (1 achos). Roedd hyn yn erbyn cyfartaledd ymyrraeth yng Nghymru o 13%. Mae hyn yn awgrymu:-

- adferiad mewnol mwy effeithiol i gwynion.
- rheolaeth well dros achosion yn y camau cyntaf;
- adolygu Polisi Cwynion y Cyngor a swyddogion cwynion yn ymgymryd â hyfforddiant gydag OGCC

yn debygol o fod wedi arwain at y gwelliant hwn.

### 3.5 Categorïau Cwynion

| Newidiadau Maes Gwasanaeth | 2023/2024 | 2024/2025 |
|---|---|---|
| Delio â chwynion | 24% (9 achos) | 5% (1 achos) |
| Adnoddau | 16% (6 achos) | 23% (5 achos) |
| Tai | 8% (3 achos) | 18% (4 achos) |
| Adeiladu a rheoli adeiladu | 16% (6 achos) | 9% (2 achos) |
| Hamdden | 3% (1 achos) | 9% (2 achos) |
| Iechyd yr Amgylchedd | Sero | 5% (1 achos) |
| Addysg | 3% (1 achos) | Sero |
| Trwyddedu | 3% (1 achos) | Sero |
| HWP | 3% (1 achos) | 5% (1 achos) |

Gwelwyd newid sylweddol mewn categorïau cwynion, gyda chwynion tai wedi dyblu, sy'n cyd-fynd â'r tuedd naturiol a amlygwyd yn adroddiadau thematig OGCC.

Mae cwynion am adnoddau i'r OGCC hefyd wedi cynyddu, gan awgrymu bod pwysau ar wasanaethau.

Roedd ymdrin â chwynion yn un o'r categorïau uchaf ymhlith cwynion yn 2023/2024, gan gynrychioli 24% o'r cyfanswm. Yn 2024/2025, roedd ymdrin â chwynion yn un o'r categorïau cwyno isaf, yn cynrychioli dim ond 5%.

Mae'r Cyngor wedi dangos gwelliant yn ystod 2024/2025 o ran rheoli cwynion, gan arwain at ostyngiad yn nifer y cwynion a chyfraddau ymyrraeth OGCC.

## 4. Dysgu o Gwynion yn 2024/2025

**4.1** Mae Polisi Cwynion y Cyngor yn pwysleisio ar ddysgu o gamgymeriadau a defnyddio'r wybodaeth honno i wella gwasanaethau.

Mae'r gwersi y ddysgwyd yn cael eu cofnodi ar hyd o bryd ar y gronfa ddata cwynion, ond nid yw pob gwasanaeth yn cofnodi cwynion yn gyson.

**4.2** Y prif wersi ar gyfer 2024/2025 yw:

**4.2.1** Pwysigrwydd ystyried materion cydraddoldeb. Yn ystod 2024/2025, cyflwynodd OGCC argymhellion yn seiliedig ar brofiad preswylwyr bregus o ddefnyddio gweithdrefnau'r Cyngor, a gofynnwyd i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi dogfen 'hawdd ei darllen' yn amlygu'r gofyniad i dalu'r Dreth Gyngor yn brydlon, a beth ddylid ei wneud am gasglu ôl-ddyledion. Mae cydraddoldeb yn un o brif flaenoriaethau'r OGCC. Yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/2025, mae'r OGCC yn nodi:

> *'…Ymhlith y themâu a'r pwyntiau dysgu allweddol a amlygwyd yn yr adroddiad yw'r diffyg addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion ag anableddau, megis anableddau dysgu, problemau symudedd difrifol, neu awtistiaeth a dyslecsia. Mae'r Adroddiad hefyd yn nodi heriau yn deillio o gyfathrebu gwael gyda phobl sydd ag anghenion iaith neu golled synhwyraidd… Yn ogystal mae'r adroddiad (thematig - Materion Cydraddoldeb 2025) yn codi pryderon am gyrff cyhoeddus yn methu ag alinio polisïau darparu gwasanaethau gyda'r dyletswyddau cyfreithiol dan ddeddfwriaeth hawliau dynol a chydraddoldeb.* ***(Adroddiad Blynyddol OGCC 2024/2025)***

Mae angen diweddaru hyfforddiant ar gydraddoldeb i swyddogion cwynion a chodi ymwybyddiaeth o Bolisi Cydraddoldeb y Cyngor a bod cyngor ar gael gan y Swyddog Cydraddoldeb.

**4.2.2** Yr angen i feysydd gwasanaeth adnabod materion sy'n ailadrodd, themâu a gwneud gwelliannau lle bo'n bosibl. Er enghraifft, y cynnydd yn nifer y cwynion Tai, sy'n cyd-fynd â'r cynnydd cenedlaethol mewn perthynas â materion Tai (gan gynnwys y 54.3% a gafodd eu olrhain) a atgyfeiriwyd i OGCC.

**4.2.3** Bod gweithdrefnau'n cael eu dehongli'n gyson a bod yr holl swyddogion cwynion wedi'u deall yn iawn. Roedd hyfforddiant gan OGCC i swyddogion cwynion y Cyngor yn 2024 yn amlygu camddealltwriaeth gan rai o ran dehongli beth a ystyrir yn gŵyn, a gwaethygwyd hyn gan y ffaith fod y Cyngor wedi cael pedwar swyddog cwynion yn y tair blynedd ddiwethaf, ac wedi methu a phenodi rhywun yn barhaol. Gwnaeth yr hyfforddiant hwn arwain at wneud addasiadau i Bolisi Cwynion y Cyngor ac mae ymateb ymgynghorol dilynol, a ddarparwyd gan y Cyngor i'r OGCC, yn dilyn cyfarfod gyda swyddfa'r OGCC, wedi arwain at gytundeb o ran paratoi cyngor a chanllawiau drafft cenedlaethol pellach.

**4.2.4** Gwneud mwy gydag OGCC, yn enwedig er mwyn sicrhau bod OGCC wedi'i gynnwys mewn unrhyw ohebiaeth gydag achwynwyr sy'n ymwneud â gweithredu argymhellion yr OGCC, oherwydd mae'r diffyg i wneud hynny mewn dau achos (yn cynnwys chwe argymhelliad) yn ystod 2024/2025 wedi arwain at argymhellion a oedd yn cael eu gweithredu yn cael eu cofnodi fel nad oeddynt yn cydymffurfio.

**4.2.5** Er bod hyfforddiant a phrofion mewnol wedi'u cwblhau, mae hyfforddiant pellach yn mynd rhagddo bellach ar y CRM newydd. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, gyda'r system wedi'i ymgorffori, bydd hyfforddiant pellach ar gydraddoldeb a gofal cwsmer yn angenrheidiol.

## 5. Edrych Ymlaen - 2025/26

**5.1** Fel y cyfeiriwyd ato uchod, cwblhaodd y Cyngor hyfforddiant gydag OGCC yn 2024 a diweddarwyd Polisi Cwynion y Cyngor.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd//a fydd yn cael eu cymryd yn 2025/2026 i wella'r ffordd mae'r Cyngor yn ymdrin â chwynion gwasanaeth.

**5.2** Pan fydd y CRM yn mynd yn fyw, bydd gan yr holl Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth fynediad at y dashfwrdd ar PowerBI a fydd yn eu galluogi i gael mynediad at wybodaeth pryd bynnag maent yn ddymuno am statws cwynion eu gwasanaeth.

Y bwriad wrth ddatblygu a chyflwyno'r CRM yw gwella goruchwyliaeth a rheolaeth y Cyngor dros gwynion; gweithrediadau dydd i ddydd gan y swyddogion cwynion gwasanaeth a goruchwyliaeth gan eu Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth.

| | |
|---|---|
| **5.3** | Mae’r Swyddog Cwynion Dros Dro, ynghyd â’r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu, yn trefnu hyfforddiant ar ofal cwsmer er mwyn codi ymwybyddiaeth o arfer gorau wrth ddelio gydag chwynion yn effeithiol. Mae hyfforddiant pellach hefyd yn cael ei drefnu ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. |
| **5.4** | Mae'r Swyddog Cwynion Corfforaethol Dros Dro yn diweddaru nodyn canllaw ar gyfer swyddogion cwynion er mwyn pwysleisio ymhellach egwyddor proses ymdrin â hawliadau sy'n cael ei deall yn dda ac sy'n cael ei chymhwyso'n gyson. |

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Dim. Mae Llythyr Blynyddol OGCC 2024/2025 yn nodi bod rhaid adrodd i’r Pwyllgor Gwaith.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?

Mae’n ofyniad gan OGCC.

Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Amherthnasol

D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol. Mae’r cyllid angenrheidiol ar gyfer gweithredu rhai o’r argymhellion eisoes o fewn y gyllideb.

Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Bydd lleihau nifer y cwynion a gwella’r modd yr ydym yn delio â chwynion yn gwella profiad y cwsmer, galluogi swyddogion i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau craidd a gwella enw da’r Cyngor.

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i’r dyfodol? Os felly, sut?

Ydi, gan y bydd llai o gwynion a delio â chwynion yn well yn osgoi dyblygu gwaith a lleihau’r costau’n gysylltiedig â hynny a’r amser y mae swyddogion yn ei dreulio yn delio â chwynion, cynnal ymchwiliadau a gohebu ag OGCC.

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

| |
|---|
| Do, OGCC. |

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

| |
|---|
| Mae profiadau cwsmeriaid o ran y modd yr ydym yn delio â chwynion wedi effeithio ar rai o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. |

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| |
|---|
| Un o'r argymhellion yw darparu hyfforddiant i swyddogion cwynion ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r thema hon hefyd yn thema genedlaethol ac mae'n rhan waith thematig OGCC ar gyfer 2024/2025. |

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

| |
|---|
| Amherthnasol |

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| Rhagwelir na fydd unrhyw effaith gan y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu'n gwbl ddwyieithog wrth ymateb i'r argymhellion a chwsmeriaid. |

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Wedi ei rannu â'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth ar 15/09/2025 ac mae unrhyw adborth perthnasol wedi cael ei gynnwys yn yr Adroddiad hwn |
| 2. Cyllid / Swyddog 151 | Aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Awdur yr adroddiad |
| 4. Adnoddau Dynol | Pob Pennaeth Gwasanaeth wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad ar yr adroddiad drafft |
| 5. Eiddo | |
| 6. Technoleg Gwybodaeth | |
| 7. Caffael | |
| 8. Sgriwtini | Na |
| 9. Aelodau lleol | Na |

F – Atodiadau

| |
|---|
| Atodiad 1 : Crynodeb o'r Cwynion fesul Gwasanaeth ar gyfer 2024-2025<br>Atodiad 2 : Dadansoddiad o'r Data Mewnol ar Gwynion |

| |
|---|
| Atodiad 3 : Llythyr Blynyddol OGCC 2024/2025<br>Atodiad 4 : Crynodeb o’r Cwynion Cod Ymddygiad a Chwythu’r Chwiban |

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

| |
|---|
| Mae’r holl bapurau cefndirol perthnasol wedi cael eu darparu yn yr Atodiadau uchod. |

# Atodiad 1

**Crynodeb o Gwynion fesul Gwasanaeth ar gyfer 2024 - 2025**

| Gwasanaeth | Nifer y cwynion Cam 1 | Nifer y cwynion Cam 2 | Nifer wedi' u olrhain | Nifer heb eu olrhain | Cwynion wedi' u gollwng | Ymatebwyd iddynt ar amser | Ymatebion hwyr (cyn pen 3 mis) | Nifer yr ymatebion (dros 3 mis) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Busnes y Cyngor** | | | | | | | |
| Busnes y Cyngor | - | - | - | - | - | - | - | |
| | **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | |
| Priffyrdd ac Eiddo | 38 | 11 | 8 | 40 | 1 | 42 | 7 | |
| Gwastraff | 10 | 2 | 1 | 11 | | 11 | 1 | |
| | **Tai** | | | | | | | |
| Tai | 40 | 7 | 25 | 21 | 1 | 43 | 4 | |
| | **Dysgu** | | | | | | | |
| Dysgu (ac eithrio ysgolion) | 12 | 1 | | 13 | | 10 | 3 | |
| | **Rheoleiddio ac Economaidd** | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd/Morwrol | | | | | | | | |
| Hamdden | 15 | | 14 | 1 | | 15 | | |
| Cynllunio | 2 | 2 | | 4 | | 4 | | |
| Amgylchedd/Gwarchod y Cyhoedd | 10 | 1 | 4 | 7 | | 10 | 1 | |
| | **Adnoddau** | | | | | | | |
| Adnoddau | 14 | 6 | 4 | 15 | 1 | 17 | 3 | |
| | **Trawsnewid** | | | | | | | |
| Cyswllt Môn | - | - | - | - | - | | - | |
| AD | - | - | - | - | - | | - | |
| **Cyfansymiau** | **141** | **30** | **56** | **112** | **3** | **152** | **19** | |

# ATODIAD 2

| Amgylchedd/Gwarchod y Cyhoedd |
| --- |
| - 15 cwyn, o gymharu â 10 yn 2023/2024, yn cynrychioli 8.7% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025.<br><br>- Ymatebwyd i 14 o'r 15 ar amser.<br><br>- Er nad oedd nifer y cwynion yn uchel, cafodd 5 ohonynt eu trosglwyddo ymlaen i Gam 2. Mae hyn yn awgrymu y gall yr ymdriniaeth a chwynion Cam 1 fod yn fwy effeithiol.<br><br>- Er hyn, dim ond 2 gŵyn a gafodd eu olrhain. |

| Priffyrdd ac Eiddo |
| --- |
| - Y nifer uchaf o gwynion, sef 49, o gymharu â 19 yn 2023/2024, gan gynrychioli 28.5% o gyfanswm y cwynion yn 2024/2025.<br><br>- O ystyried y cynnydd yn nifer y cwynion, o un flwyddyn i'r llall, awgrymir y dylai'r Gwasanaeth adolygu'r rhesymau dros hyn ac a oes unrhyw addasiadau y gellir eu gwneud i systemau/prosesau/capasiti/hyfforddiant i leihau cwynion yn 2025/2026. Fodd bynnag, gall hyn fod oherwydd cyllid/materion staffio ond efallai nad oes modd liniaru hynny.<br><br>- Dylid nodi mai dim ond 8 cwyn a gafodd eu olrhain (16.7%) ond hefyd mai ychydig o gwynion a gofnodwyd yn Ch1 a Ch2 2024/2025, sy'n awgrymu y gallai nifer y cwynion fod yn uwch nag a gofnodwyd. |

| Tai |
|---|
| - 47 cwyn, o gymharu â 113 yn 2023/2024, yn cynrychioli 27.3% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025. Mae hwn yn welliant amlwg, er o sylfaen isel, gyda pherfformiad yn 2023/2024 yn cael ei briodoli i weithredu system TG newydd.<br><br>- Fodd bynnag, cofnodwyd 45 o'r 47 cwyn yn 2024/2025 ar gyfer Chwarter 3 a 4. Mae'n annhebygol mai dim ond 2 gŵyn a wnaed yn Chwarter 1 a 2 gyda'i gilydd. Mae felly'n rhesymol derbyn y gall nifer y cwynion blynyddol ar gyfer Tai fod yn sylweddol uwch.<br><br>- Mae angen i'r Gwasanaeth Tai ddilysu ei ddata ar gyfer 2024/2025 ac ystyried adolygu'r rhesymau dros y nifer uchel o gwynion a gafodd eu olrhain. Cadarnhawyd 54.3% o'r cwynion a gofnodwyd yn ystod 2024/2025. Dylai'r Gwasanaeth nodi prif achosion y cwynion a llunio cynllun i wella'r meysydd hyn, lle bo modd. |

| Dysgu |
|---|
| - 13 cwyn, o gymharu â 6 yn 2023/2024, yn cynrychioli 7.6% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025.<br>- Cafodd 12 ohonynt eu hadfer yng Ngham 1, sy'n awgrymu yr ymdrinnir â chwynion yn effeithiol.<br>- Ni chafodd unrhyw rai o'r cwynion eu olrhain, ond ni throsglwyddwyd unrhyw rai i Gam 2.<br>- Fodd bynnag, mae'r unig fater yn ymwneud â'r amseroedd ymateb mwyaf araf, gyda 23.1% o ymatebion hwyr. Dylid nodi y gall cwynion yn y maes hwn fod yn gymhleth, ac mae diffyg cwynion yng Ngham 2 yn awgrymu yr ymdriniwyd â chwynion yn effeithiol. |

| Hamdden |
|---|
| - 15 cwyn, o gymharu â 29 yn 2023/2024, yn cynrychioli 8.7% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025.<br>- Ymatebwyd i'r holl gwynion ar amser.<br>- Datryswyd yr holl gwynion yng Ngham 1. Mae hyn yn awgrymu sgiliau gofal cwsmeriaid da mewn gwasanaeth sy'n wynebu'r rheng flaen i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae nifer y cwynion a gafodd eu olrhain yn uchel sef 93%, gyda dim ond un gŵyn heb ei olrhain. Gall hyn fod o ganlyniad i natur y Gwasanaeth ac uniongyrchedd y cwynion a wneir. Fodd bynnag, efallai y bydd angen hyfforddiant, er mwyn sicrhau nad yw cwynion yn cael eu drysu â cheisiadau am wasanaeth. |

| Cynllunio |
|---|
| - 4 cwyn, o gymharu â 25 yn 2023/2024, yn cynrychioli 0.6% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025.<br>- 2 gwyn wedi'u datrys yng Ngham 1, a 2 gŵyn wedi'u datrys yng Ngham 2.<br>- Ni chafod unrhyw rai eu olrhain, ac ymatebwyd i bob cwyn ar amser.<br>- Perfformiad uchel, ddim yn codi unrhyw bryder. |

| Adnoddau |
|---|
| - 20 cwyn, o gymharu â 56 yn 2023/2024, yn cynrychioli 11.6% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025. Mae hyn yn dangos gwelliant amlwg.<br>- Datryswyd 14 o gwynion yng Ngham 1 gyda 6 yn mynd i Gam 2. Mae hyn yn gymharol uchel, sef 30% o gyfanswm y cwynion. Mae hyn yn awgrymu y gallai trin cwynion Cam 1 fod yn fwy effeithiol, ond mae hwn yn wasanaeth eang, ac mae cwynion yn aml yn cwmpasu mwy nag un maes gwasanaeth, gan arwain at oedi a chymhlethdod.<br>Cafodd 4 o'r 20 cwyn eu olrhain. |

| Gwastraff |
| --- |
| - 12 cwyn, o gymharu â 21 yn 2023/2024, yn cynrychioli 7% o gyfanswm y cwynion gwasanaeth yn 2024/2025.<br>- Cafodd 10 ohonynt eu hadfer yng Ngham 1, sy'n awgrymu yr ymdrinnir â chwynion yn effeithiol.<br>- Cafodd 1 ei olrhain.<br>- Derbyniodd 11 allan o 12 cwyn ymateb ar amser.<br>- Perfformiad uchel, ddim yn codi unrhyw bryder. |

Ombwdsmon Ombudsman
Cymru · Wales

Gofynnwch am: Cyfathrebu
☎ 01656 641150
✉ Caseinfo@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: 14 Awst 2025

**PERSONOL A CHYFRINACHOL**
Cynghorydd Gary Pritchard
Cyngor Sir Ynys Môn

**Drwy e-bost yn unig**
garypritchard@anglesey.gov.uk
dylanwilliams@ynysmon.gov.uk
Lynnball@anglesey.gov.uk
GaryO'reilly@ynysmon.llyw.cymru

Annwyl Gynghorydd Gary Pritchard

**Llythyr Blynyddol 2024-25**

**Rôl OGCC**

Fel y gwyddoch, ein rôl ni fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ystyried cwynion am wasanaethau cyhoeddus, ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr, gosod safonau ar gyfer ymdrin â chwynion gan gyrff cyhoeddus a sbarduno gwelliant mewn ymdrin â chwynion a dysgu o gwynion. Rydym hefyd yn cynnal ymchwiliadau i wasanaethau cyhoeddus ar ein liwt ein hunain.

**Diben y llythyr**

Trwy'r llythyr hwn, rydym am roi diweddariad i chi ar ein gwaith, rhannu tueddiadau allweddol mewn cwynion am lywodraeth leol yng Nghymru a thynnu sylw at unrhyw faterion penodol i'ch sefydliad, ynghyd â chamau yr hoffwn i'ch sefydliad eu cymryd.

**Cwynion am wasanaethau cyhoeddus**

Mae'r llythyr hwn, fel bob amser, yn cyd-fynd â chyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol. Unwaith eto, gwelsom gynnydd yn nifer y bobl sy'n cysylltu â ni am wasanaethau cyhoeddus. Ers 2019-20, mae nifer y cwynion newydd am wasanaethau cyhoeddus sy'n cyrraedd ein swyddfa wedi cynyddu 44%.

Caewyd y nifer uchaf erioed o gwynion am wasanaethau cyhoeddus – 5% yn fwy na'r llynedd. Eleni, gwnaethom ymyrryd (canfod bod rhywbeth wedi mynd o'i le, ac argymell sut i gywiro pethau) mewn 18% o'r cwynion a gaewyd. Ar nodyn



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

cadarnhaol, eleni fe wnaethom ddatrys llawer mwy o gwynion yn gynnar. Roedd 87% o'n hymyriadau eleni yn ymwneud â Datrysiad Cynnar, o'i gymharu â 70% yn 2023-24.

Rydym yn deall bod pobl sy'n dod atom eisiau i'w cwynion gael eu datrys cyn gynted â phosibl ac rydym wedi ymrwymo i ddelio â nhw’n brydlon.

Yn gyffredinol, gwnaethom asesu cwynion a ddaeth i law, neu ymyrryd gyda Datrysiad Cynnar, o fewn 4 wythnos ar gyfartaledd; sydd ymhell o fewn ein targed o 6 wythnos. Rydym hefyd wedi lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau ymchwiliad ar gyfartaledd, o 64 wythnos yn 2023-24, i 53 wythnos eleni.

Yn ystod 2024-25, cawsom 1,337 o gwynion am gynghorau lleol - cynnydd o 20% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a 54% yn fwy nag yn 2019-20.

Roedd y prif gwynion oedd i gyfrif am y cynnydd hwn yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, yr amgylchedd ac iechyd yr amgylchedd, a thai. Fodd bynnag, gwelsom hefyd ostyngiad, sydd i'w groesawu, mewn cwynion am ymdrin â chwynion.

Gwnaethom ymyrryd mewn 13% o gwynion cynghorau lleol a gaewyd – cyfran debyg i'r blynyddoedd diwethaf.

Derbyniwyd 22 o gwynion am Cyngor Sir Ynys Môn a chaewyd 20 – cafodd rhai cwynion eu cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol. Cyfradd ymyrraeth Cyngor Sir Ynys Môn oedd 5%. Roedd 18% o'r cwynion a dderbyniwyd am Gyngor Sir Ynys Môn yn ymwneud â Thai, cynnydd o 8% yn 2023-24. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanwl am gwynion am eich sefydliad y rhoddwyd sylw iddynt eleni yn yr atodiadau.

Yn 2024-25, gwnaethom 4 o argymhellion i'ch sefydliad. Er mwyn sicrhau bod ein hymchwiliadau a'n hadroddiadau yn hybu gwelliant, gwnawn waith dilynol ar gydymffurfiaeth â'r argymhellion y cytunwyd arnynt gyda'ch sefydliad. Yn 2024-25, roedd angen cydymffurfio â 6 argymhelliad. Cyflawnwyd 0% o argymhellion oedd angen eu cwblhau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Caiff argymhellion ac amserlenni ar gyfer cydymffurfio ag argymhellion bob amser eu cytuno gyda’r corff cyhoeddus dan sylw cyn eu cwblhau, ac felly rydym yn disgwyl sefydliadau i gydymffurfio o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

### Ein gwaith Cod Ymddygiad

Ein rôl yw ymchwilio i honiadau bod cynghorwyr wedi torri eu Cod Ymddygiad. Pan fydd ymchwiliad yn canfod tystiolaeth i gefnogi’r gŵyn ar fater sy’n ddigon difrifol fel bod angen ei gyfeirio er budd y cyhoedd, caiff yr achosion hyn eu cyfeirio naill ai at y Pwyllgor Safonau lleol neu’r Panel Dyfarnu Cymru i’w hystyried.

Yn 2024-25, cawsom 4% yn llai o gwynion Cod Ymddygiad newydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd 60% o'r cwynion hyn yn ymwneud ag aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned. Rydym yn dal i weld bod tuedd i dros hanner y cwynion hyn (56% eleni) fod yn gysylltiedig â hyrwyddo cydraddoldeb a pharch.

Gwnaethom 15 o atgyfeiriadau at y Pwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru (o'i gymharu â 21 y llynedd). Rydym yn ddiolchgar i'ch Swyddog Monitro am eu hymgysylltiad cadarnhaol gyda'm swyddfa dros y flwyddyn ddiwethaf. Eleni byddwn yn parhau i ymgysylltu â nhw ar faterion sy'n ymwneud â'r fframwaith safonau moesegol, gan gynnwys Gweithdrefnau Datrys Lleol.

**Adolygiad Annibynnol**

Fel y gwyddoch, y llynedd, tynnwyd i'n sylw bod aelod o staff a oedd wedi bod yn Arweinydd Tîm ein Tîm Cod Ymddygiad wedi bod yn postio sylwadau amhriodol ac annerbyniol o natur wleidyddol ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd yr aelod o staff ei atal yn brydlon ac yn fuan wedyn ymddiswyddodd.

O ystyried difrifoldeb y mater, comisiynwyd Dr Melissa McCullough i gynnal adolygiad annibynnol o'n gwaith Cod Ymddygiad. Mae Adroddiad Dr McCullough, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024, wedi canfod "yn gyffredinol, bod prosesau a dirprwyaethau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gadarn o ran diogelu tegwch a didueddrwydd. Maent yn systematig, wedi eu dogfennu'n dda ac wedi eu hategu gan ganllawiau priodol ac mae'n ofynnol cofnodi ac egluro'r rhesymau dros y penderfyniad fel bo'n berthnasol."

Er bod y canfyddiadau yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn, roedd yr adroddiad adolygu yn cynnwys nifer o argymhellion a gwersi a ddysgwyd, i " ategu'r mesurau diogelu presennol ar gyfer sicrhau tegwch a didueddrwydd y prosesau a byddai'n egluro'r canllawiau cysylltiedig fel bo'n berthnasol:

Yn dilyn hyn, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Senedd ei adroddiad ar yr Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion pellach i ni yn ei adroddiad. Gellir dod o hyd i fanylion yr holl argymhellion a gwersi a ddysgwyd a'r camau rydyn ni wedi'u cymryd mewn ymateb yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Er mwyn darparu sicrwydd ychwanegol, cynhaliodd Dr McCullough asesiad annibynnol pellach o sut y gwnaethom weithredu'r argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd, fel y nodir yn ei Hadroddiad Adolygiad Annibynnol 2024. Daeth yr asesiad hwn i'r casgliad canlynol:

- derbyniwyd yr holl argymhellion a'r gwersi a ddysgwyd yn llawn gennym ac maent wedi'u gweithredu'n llawn.
- dangoswyd dull cynhwysfawr, ystyriol ac ymgynghorol o weithredu'r argymhellion
- mae cyflymder y gweithredu wedi bod yn drawiadol
- cadarnhaodd adolygiad sicrwydd ansawdd ar wahân fod ein proses yn gadarn.

**Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau cyhoeddus**

Gwnaethom barhau â'n gwaith ar gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ystod 2024-25, gwnaethom gwblhau ein hail ymchwiliad ehangach ar ein liwt ein hunain a oedd yn edrych ar asesiadau o anghenion gofalwyr yng Nghymru. Edrychwyd ar 4 cyngor lleol – Caerffili, Ceredigion, Sir y Fflint a Chastell-nedd Port Talbot – i weld p'un ai oedden nhw'n cynnal asesiadau gofalwyr yn unol â'u rhwymedigaethau statudol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad hwn ym mis Hydref 2024. Canfuom mai dim ond 2.8% o bobl yn ardaloedd y cynghorau hynny a nododd eu bod yn ofalwyr oedd wedi derbyn asesiad o anghenion. Yn ogystal â hyn, dim ond 1.5% oedd wedi derbyn cynllun cymorth priodol yn dilyn eu hasesiad. Nid oedd llawer o ofalwyr chwaith yn ymwybodol o'u hawliau mewn perthynas ag asesiadau a gwasanaethau cymorth a allai fod ar gael iddynt.

Nodwyd rhai meysydd o arfer da gan y cynghorau yr ymchwiliwyd iddynt. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd sawl argymhelliad gan gynnwys:

- gwella arferion cofnodi
- gwella sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu â gofalwyr
- cynnig hyfforddiant diweddaru i staff ar hawliau gofalwyr
- cydweithio'n well â'r sector gofal iechyd.

Gwahoddwyd y cynghorau lleol eraill yng Nghymru i wneud gwelliannau tebyg.

Fel y gwnaethom yn achos ein hymchwiliad cyntaf ar ein liwt ein hunain, rydym wedi bod yn monitro sut mae sefydliadau wedi bod yn cydymffurfio â'n hargymhellion. Rydym yn bwriadu adolygu cydymffurfiaeth â'r argymhellion ac unrhyw effeithiau eraill yr adroddiad ym mis Hydref 2025.

Ar hyn o bryd mae 54 o sefydliadau ledled Cymru yn gweithredu ein polisi cwynion enghreifftiol. Mae hyn yn cynnwys yr holl gynghorau lleol, pob bwrdd iechyd a bellach y rhan fwyaf o gymdeithasau tai - sy'n cynrychioli tua 85% o'r cwynion a dderbyniwn.

Mae ein cynnig o hyfforddiant am ddim ar ymdrin â chwynion wedi parhau i fod yn boblogaidd a darparwyd 52 o sesiynau hyfforddi pellach i gyrff cyhoeddus ledled Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn dod â'r cyfanswm i 550 o sesiynau hyfforddi a 10,000 o bobl, ers 2020.

Rydym wedi parhau â'n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion, a gasglwyd gan gyrff cyhoeddus, gyda data'n cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r data am gwynion sy'n cael sylw gan gynghorau lleol yng

Nghymru yn ystod 2024-25 yn yr Hydref. Mae'r data hwn yn caniatáu inni weld gwybodaeth gyda mwy o gyd-destun – er enghraifft, yn ystod 2024-25 aeth 5.18% o'r cwynion a wnaed i gynghorau lleol ymlaen i gael eu cyfeirio atom.

Yn olaf, cyhoeddom hefyd 2 adroddiad thematig eleni, a oedd yn cynnwys astudiaethau achos o gwynion am gynghorau lleol:

- 'Byw mewn Cyflyrau Difrifol' (Tachwedd 2024): adroddiad thematig am gwynion tai a lleithder a llwydni.
- 'Mae Cydraddoldeb o Bwys' (Ionawr 2025): adroddiad thematig ar gynhwysiant a hygyrchedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion cyffredinol ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, gan roi ystyriaeth i'r gwersi a ddysgwyd o'n gwaith achos.

**Camau yr hoffem i'ch sefydliad eu cymryd**

Ymhellach i'r llythyr hwn, a gaf ofyn i'ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno'r Llythyr Blynyddol hwn i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal.
- Ystyried y data yn y llythyr hwn, ochr yn ochr â'ch data eich hun, i ddeall mwy am eich perfformiad ar gwynion, gan gynnwys unrhyw batrymau neu dueddiadau a chydymffurfiaeth eich sefydliad ag argymhellion a wnaed gan fy swyddfa.
- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Hoffwn ddiolch i chi, a'ch swyddogion, am barhau i fod yn agored, ac am ymgysylltu, gyda fy swyddfa. Mae ein gwybodaeth yn dangos bod awdurdodau lleol yn ystyried mwy o gwynion nag erioed o'r blaen ac yn defnyddio gwybodaeth o gwynion i sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru.

Yn gywir

*Michelle Morris*

**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

Cc. Dylan Williams, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
Lynn Ball, Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ynys Môn
Gary O'Reilly, Swyddog Cyswllt OGCC, Cyngor Sir Ynys Môn

**Taflen Wybodaeth**

Mae **Atodiad A** yn dangos nifer y cwynion a gafodd OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2024-25. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun gan boblogaeth pob awdurdod.

Mae **Atodiad B** yn dangos categori pob cwyn a gafwyd, a pha gyfran o'r cwynion a gafwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad C** yn dangos cyfraddau ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2024-25. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae **Atodiad D** yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2024-25. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad E** yn dangos perfformiad o ran cydymffurfiad ar gyfer pob Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad F** yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2024-25. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae **Atodiad G** yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol yn 2024-25. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.

## Atodiad A – Cwynion a gafwyd (trosolwg)

| | MAL | | | CODE | | | Cyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | **Cywnion a Gafwyd** | **Poblogaeth** | **Cafwyd fesul 1,000 o drigolion** | **Cywnion a Gafwyd** | **Poblogaeth** | **Cafwyd fesul 1,000 o drigolion** | **Cywnion a Gafwyd** | **Poblogaeth** | **Cafwyd fesul 1,000 o drigolion** |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 14 | 67356 | 0.21 | 1 | 67356 | 0.01 | 15 | 67356 | 0.22 |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 58 | 146743 | 0.40 | 10 | 146743 | 0.07 | 68 | 146743 | 0.46 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 78 | 176437 | 0.44 | 3 | 176437 | 0.02 | 81 | 176437 | 0.46 |
| Cyngor Caerdydd | 219 | 383536 | 0.57 | 4 | 383536 | 0.01 | 223 | 383536 | 0.58 |
| Cyngor Sir Gâr | 86 | 190083 | 0.45 | 14 | 190083 | 0.07 | 100 | 190083 | 0.53 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 47 | 73050 | 0.64 | 0 | 73050 | 0.00 | 47 | 73050 | 0.64 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 29 | 114410 | 0.25 | 9 | 114410 | 0.08 | 38 | 114410 | 0.33 |
| Cyngor Gwynedd | 46 | 119173 | 0.39 | 2 | 119173 | 0.02 | 48 | 119173 | 0.40 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 98 | 97156 | 1.01 | 7 | 97156 | 0.07 | 105 | 97156 | 1.08 |
| Cyngor Sir y Fflint | 61 | 155812 | 0.39 | 3 | 155812 | 0.02 | 64 | 155812 | 0.41 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 22 | 69291 | 0.32 | 2 | 69291 | 0.03 | 24 | 69291 | 0.35 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 17 | 58593 | 0.29 | 3 | 58593 | 0.05 | 20 | 58593 | 0.34 |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 19 | 94572 | 0.20 | 9 | 94572 | 0.10 | 28 | 94572 | 0.30 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 48 | 142898 | 0.34 | 1 | 142898 | 0.01 | 49 | 142898 | 0.34 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 61 | 163628 | 0.37 | 1 | 163628 | 0.01 | 62 | 163628 | 0.38 |
| Cyngor Sir Penfro | 47 | 125006 | 0.38 | 6 | 125006 | 0.05 | 53 | 125006 | 0.42 |
| Cyngor Sir Powys | 55 | 134439 | 0.41 | 24 | 134439 | 0.18 | 79 | 134439 | 0.59 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 62 | 241178 | 0.26 | 3 | 241178 | 0.01 | 65 | 241178 | 0.27 |
| Cyngor Abertawe | 113 | 246742 | 0.46 | 6 | 246742 | 0.02 | 119 | 246742 | 0.48 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 20 | 93419 | 0.21 | 4 | 93419 | 0.04 | 24 | 93419 | 0.26 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 61 | 134733 | 0.45 | 3 | 134733 | 0.02 | 64 | 134733 | 0.48 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 76 | 136149 | 0.56 | 11 | 136149 | 0.08 | 87 | 136149 | 0.64 |
| **Cyfanswm** | **1337** | **3164404** | **0.41** | **126** | **3164404** | **0.04** | **1463** | **3164404** | **0.46** |

## Atodiad B – Cwynion a gafwyd (yn ôl sefydliad)

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cwynion a Gafwyd** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 2 | 9% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 0 | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 2 | 9% |
| Cyfleusterau Cymunedol, Adloniant a Hamdden | 2 | 9% |
| Ymdrin â Chwynion | 1 | 5% |
| Covid19 | 0 | |
| Addysg | 0 | |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 1 | 5% |
| Cyllid a Threthiant | 5 | 23% |
| Iechyd | 0 | |
| Tai | 4 | 18% |
| Trwyddedu | 0 | |
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 2 | 9% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 1 | 5% |
| Darparwr Gofal sy'n Hunan-gyllido | 0 | |
| Amrywiol Eraill | 2 | 9% |
| **Cyfanswm** | **22** | |

## Atodiad C – Achosion lle ymyrrodd OGCC (trosolwg)

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | % yr ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 0 | 12 | 0% |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 6 | 57 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 11 | 79 | 14% |
| Cyngor Caerdydd | 37 | 190 | 19% |
| Cyngor Sir Gâr | 11 | 86 | 13% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 11 | 45 | 24% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5 | 29 | 17% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 6 | 98 | 6% |
| Cyngor Sir y Fflint | 7 | 61 | 11% |
| Cyngor Gwynedd | 3 | 44 | 7% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 1 | 20 | 5% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 1 | 15 | 7% |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 1 | 16 | 6% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 45 | 11% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 6 | 62 | 10% |
| Cyngor Sir Penfro | 8 | 47 | 17% |
| Cyngor Sir Powys | 8 | 51 | 16% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 6 | 60 | 10% |
| Cyngor Abertawe | 12 | 109 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 0 | 18 | 0% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 12 | 63 | 19% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 7 | 72 | 10% |
| **Cyfanswm** | **164** | **1279** | **13%** |

**Atodiad D – Achosion lle ymyrrodd OGCC (yn ôl sefydliad) (* yn dynodi ymyrraeth)**

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Canlyniadau Cwynion** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Rhoddwyd gorau i'r ymchwiliad i'r gŵyn (gyda datrysiad cynnar yn ystod y camau asesu)* | 0 | |
| Rhoddwyd y gorau i ymchwilio'r gŵyn (heb setliad) | 0 | |
| Penderfynu peidio ymchwilio cwyn | 8 | 40% |
| Datrys yn gynnar* | 1 | 5% |
| Mater tu hwnt i awdurdodaeth | 5 | 25% |
| Adroddiad nid er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn heb ei chadarnhau | 0 | |
| Adroddiad nid er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi'i chadarnhau* | 0 | |
| Adroddiad nad yw er budd y cyhoedd wedi'i gyhoeddi: cwyn wedi'i chadarnhau a'i datrys yn gynnar yn y cam asesu* | 0 | |
| Cynamserol | 6 | 30% |
| Adroddiad Budd y Cyhoedd wedi'i gyhoeddi: y gŵyn wedi ei chadarnhau* | 0 | |
| Adroddiad Budd y Cyhoedd wedi'i gyhoeddi: cwyn wedi'i chadarnhau gyda datrysiad cynnar yn ystod y cam asesu* | 0 | |
| Adroddiad Budd Arbennig | 0 | |
| Setliadau gwirfoddol* | 0 | |
| **Cyfanswm** | **20** | |

## Atodiad E – Cymhariaeth o berfformiad cydymffurfio

| Awdurdod Lleol | Nifer yr amgymhellion a wnaed ar gwynion y caewyd yn 2024-25 | Nifer yr amgymhellion sy'n ddyledus yn 2024-25 | % yr argymhellion, y cydymffurfiwyd â dyddiad targed cytûn |
|---|---:|---:|---:|
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Blaenau Gwent | 0 | 0 | n/a |
| Cyngor Bwrfeitstref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 15 | 18 | 28% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 24 | 24 | 50% |
| Cyngor Caerdydd | 97 | 96 | 56% |
| Cyngor Sir Gâr | 29 | 27 | 67% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 24 | 24 | 63% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 14 | 14 | 71% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 10 | 8 | 50% |
| Cyngor Sir y Fflint | 20 | 22 | 91% |
| Cyngor Gwynedd | 9 | 9 | 89% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 4 | 6 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 2 | 4 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sir Fynwy | 2 | 2 | 0% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 11 | 8 | 75% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 12 | 11 | 27% |
| Cyngor Sir Penfro | 20 | 18 | 61% |
| Cyngor Sir Powys | 21 | 23 | 22% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 11 | 10 | 20% |
| Cyngor Abertawe | 25 | 24 | 33% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 0 | 0 | n/a |
| Cyngor Bro Morgannwg | 30 | 31 | 55% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 19 | 16 | 75% |

## Atodiad F – Cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Cwynion Y Cod Ymddygiad y caewyd** |
|---|---|
| Cod Ymddygiad heb ei weithredu | 0 |
| Taflen Cod Ymddygiad wedi'i hanfon/dolen i'r wefan wedi'i darparu | 0 |
| Gafwyd y gŵyn dros y ffôn - yn aros am lofnod | 0 |
| Tynnwyd y gŵyn ôl | 0 |
| Rhoddwyd y gorau. Nid er budd y cyhoedd i'w ddilyn | 0 |
| Cŵynddyblyg heb dystiolaeth newydd | 0 |
| Gwybodaeth a ddarparwyd | 0 |
| Dim angen gweithredu | 0 |
| Dim datganiad y derbyniwyd - tynnwyd yn ôl | 0 |
| Dim tystiolaeth o esgeulustod | 0 |
| Dim tystiolaeth ar yr olwg gyntaf o esgeulustod | 2 |
| Nid er lles y cyhoedd i ymchwilio | 0 |
| Tu hwnt i awdurdodaeth - cyfeirio | 0 |
| Cynamserol - Cyfeiriwyd ar gyfer datrysiad lleol | 0 |
| Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru | 0 |
| Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau | 1 |
| Tynnwyd yn ôl | 0 |
| **Total** | 3 |

## Atodiad G – Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref / Cyngor Cymuned

| | Penderfyniad i beidio ag ymchwilio i'r cod | | Ymchwiliadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | **Nid er lles y cyhoedd i ymchwilio** | **Dim tystiolaeth ar yr olwg gyntaf o esgeulustod** | **Rhoddwyd y gorau. Nid er budd y cyhoedd i'w ddilyn** | **Dim angen gweithredu** | **Dim tystiolaeth o esgeulustod** | **Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru** | **Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau** | **Cyfanswm** |
| Cyngor Cymuned Aberffraw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Amlwch | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Tref Biwmares | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Bodedern | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Bodffordd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Bodorgan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Bryngwran | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Cwm Cadnant | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Cylch-y-Garn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Caergybi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanbadrig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddaniel Fab | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddona | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanddyfnan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llaneilian | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanerchymedd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llaneugrad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanfachraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanfaelog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Cymuned Llanfaethlu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanfairpwll | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Llangefni | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llangoed and Penmon | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llangristiolus | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanidan | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Mechell | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Porthaethwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Moelfre | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Penmynydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Pentraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Rhoscolyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Rhosybol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Rhosyr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Trearddur | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Cymuned Tref Alaw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Trewalchmai | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Fali | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |

# ATODIAD 4

## 1. Cod Ymddygiad Cwynion

Rhaid i unrhyw gŵyn yn erbyn aelod etholedig fod yn seiliedig ar honiad o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau, gyda'r Ombwdsmon yn arfer awdurdodaeth 'hidlo cyntaf' (h.y. asesu teilyngdod) cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen, a sut.

Yn ystod 2024/2025, derbyniodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 4 cwyn ynghylch cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sir, gyda 2 wedi'u cau ar ôl asesiad cychwynnol, a heb ymchwiliad.

Mae cwyn yn erbyn 1 cynghorydd sir yn parhau i gael ei hymchwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a chafodd y llall ei chwblhau gan y Pwyllgor Safonau, ond roedd yn disgyn i'r flwyddyn 2025/2026, felly nid yw'n berthnasol i amserlen yr adroddiad hwn.

Er mwyn cyflawnrwydd, mae cwynion am aelodau etholedig cynghorau tref a chymuned, mewn perthynas â'r un Cod Ymddygiad, hefyd yn cael eu hadrodd ddwywaith y flwyddyn i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir. Oherwydd cyfyngiadau a osodwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, dim ond gwybodaeth gyfyngedig iawn am gwynion o'r fath sy'n cael ei hadrodd yn ffurfiol i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir ddwywaith y flwyddyn. Gweler y dolenni dilynol:-

Chwarter 1, 2 a 3
Chwarter 4

## 2. Chwythu'r Chwiban

Lluniwyd Polisi Chwythu'r Chwiban a'r ddogfen Ganllawiau lleol y Cyngor i gefnogi gweithwyr i godi'r pryderon hynny, sy'n dod o fewn cwmpas y Polisi, heb ofni erledigaeth na gwahaniaethu. Chwythu'r chwiban yw'r term poblogaidd a ddefnyddir pan fydd aelod o staff (mae'n cynnwys contractwyr ond nid yw'n ymwneud â'r cyhoedd nac aelodau etholedig) yn codi pryderon ynghylch twyll, troseddoldeb, perygl, neu risg ddifrifol a allai fygwth y cyhoedd, eu cydweithwyr neu enw da'r Cyngor. Y ddeddfwriaeth berthnasol yma yw Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, sef darn o ddeddfwriaeth cyflogaeth a gynlluniwyd yn benodol i amddiffyn gweithwyr a chontractwyr rhag triniaeth anffafriol gan eu cyflogwyr.

Cynhaliodd staff y Cyngor sesiwn ddatblygu ar ddatgelu camweddau drwy'r Porth Polisi yn ystod Chwarter 1, 2025/2026. Bydd cyfraddau cydymffurfio yn cael eu cynnwys yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Oherwydd y sensitifrwydd dan sylw, mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cytuno ar lefel y wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn unol â rhwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i amddiffyn chwythwyr chwiban rhag niwed yn y gweithle. Yn unol â hynny, dim ond gwybodaeth gyfyngedig a ddatgelir byth.

| | Dyddiad a Gyflwynwyd | Natur y Datgeliad* /Adroddwyd i | Natur y bryder | Ymchwiliwyd | Canlyniad | Gwersi a Ddysgwyd | Canlyniadau a adroddwyd yn ôl i'r Chwythwr Chwiban |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 14/03/2025 * | Lefel 1 / Swyddog Monitro | Honiadau o ymyrraeth wleidyddol mewn erlyniad sydd ar y gweill | Do, trafodaethau gyda chwythwyr chwiban a phartïon perthnasol yn ogystal ag adolygiad o gofnodion | Penderfyniad anffurfiol gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau / Swyddog Monitro | Datblygwyd modiwl hyfforddi ar gyfer uwch swyddogion ar y berthynas rhwng Aelodau a Swyddogion: Rolau a Chyfrifoldebau | Do, diweddariad terfynol i'r pedwar chwythwr chwiban mewn cyfarfodydd un-i-un gyda'r Swyddog Monitro ar 04/06/2025 |
| 2 | 14/03/2025 * | Lefel 1 / Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Pryderon ynglŷn â'r gwasanaeth Rheoli Adeiladu ynghylch cydymffurfiaeth, cymhwysedd, capasiti a llesiant staff | Do, ac fe adroddwyd yn ffurfio i'r Pwyllgor Gwaith ar 02/20/2025. Mae'r adroddiad ar gael yma | Ymateb i'r Hysbysiad Gwella wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 02/10/2025. | Darparu gwell hyfforddiant, goruchwyliaeth a chefnogaeth ar gyfer y tîm perthnasol fel y manylir yn Atodiad A yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith. | Do ar 19/09/2025 |

* Troednodyn - dyddiadau wedi'u dilysu.  Dyddiadau adrodd yn gyd-ddigwyddiadol.

F2. 2025/07

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | 21 Hydref 2025 |
| Pwnc: | Adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig i: “Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed. |
| Aelod(au) portffolio: | Y Cynghorydd Dafydd Roberts |
| Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr: | Aaron C. Evans<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| Awdur yr adroddiad: | Gwyndaf Parry<br>gwyndafparry@ynysmon.llyw.cymru<br>Carol Sorahan<br>carolsorahan@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau lleol: | Y Cynghorydd Glyn Haynes<br>Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones<br>Y Cynghorydd Jeff M. Evans<br>Y Cynghorydd Pip O’Neill<br>Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes<br>Y Cynghorydd Keith Roberts<br>Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas<br>Y Cynghorydd Gwilym O. Jones<br>Y Cynghorydd Ken Taylor<br>Y Cynghorydd John I. Jones<br>Y Cynghorydd Arfon Wyn<br>Y Cynghorydd Douglas M. Fowlie<br>Y Cynghorydd Neville Evans |

A – Argymhellion a rhesymau

**Argymhelliad**

1. Cymeradwyo'r cynnig (yn dilyn yr adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd ar y cynnig) i “Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11–18 oed”.
2. Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi hysbysiad statudol mewn perthynas â'r cynnig.

**Rhesymau**

Ar ôl ystyried yr holl adborth fel y'i crynhowyd yn unol â chod trefniadaeth ysgolion (11/2018) yn adran 5 o'r adroddiad ymgynghori (atodiad 1), mae'r Cyngor yn dod i'r casgliad mai'r ymateb mwyaf priodol yw adeiladu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi.

Mae adborth gan y rhan fwyaf o randdeiliaid (79%) yn cytuno â'r cynnig ac mae'r Cyngor hefyd wedi ymateb i unrhyw faterion a godwyd  gan y rhanddeiliaid yn adran 5 yn yr adroddiad ymgynghori (atodiad 1).

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Fel yr amlygwyd yn adran 6 o'r ddogfen ymgynghori a gyflwynwyd i randdeiliaid, ystyriwyd a gwrthodwyd yr opsiynau canlynol.

https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Dweud-eich-dweud/Ysgol-Uwchradd-Caergybi/YUC-ymgynghoriad-statudol.pdf?nocache=1

| Opsiynau eraill a ystyriwyd | Prif resymau dros wrthod |
|---|---|
| 1.Cadw'r sefyllfa bresennol – Gadael Ysgol Uwchradd Caergybi fel y mae. | Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ysgol, yn enwedig Concrit Awyredig Awtoclafio Atgyfnerthiedig (RAAC). |
| 2.Ffedereiddio Ysgol Uwchradd Caergybi, gydag Ysgol Cybi. | Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ysgol, yn enwedig RAAC. |
| 3. Cau Ysgol Uwchradd Caergybi a throsglwyddo dysgwyr i ysgolion uwchradd eraill Ynys Môn. | Dim ysgol uwchradd yn nhref fwyaf yr ynys.<br>Dim digon o leoedd gwag yn yr ysgolion uwchradd eraill i ddarparu lle i holl ddysgwyr YUC. |
| 4. Ffedereiddio Ysgol Uwchradd Caergybi, gydag Ysgol Uwchradd Bodedern. | Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ysgol, yn enwedig RAAC. |
| 5. Adnewyddu adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi. | Mwy o aflonyddwch i addysg dysgwyr.<br>Byddai'n mynd i'r afael â chyflwr yr adeilad am 30 mlynedd o'i gymharu â 60 mlynedd ar gyfer y cynnig. |
| 6. Un ysgol aml-safle newydd (2 safle - safle presennol Ysgol Uwchradd Caergybi ar ôl ei hadnewyddu ac Ysgol Cybi). | Mwy o aflonyddwch i addysg dysgwyr.<br>Byddai'n mynd i'r afael â chyflwr yr adeilad am 30 mlynedd o'i gymharu â 60 mlynedd ar gyfer y cynnig. |
| 7. Adeiladu un ysgol uwchradd newydd yn lle Ysgol Uwchradd Caergybi ac Ysgol Uwchradd Bodedern ar gyfer disgyblion 11-18 oed. | Y dewis hwn sydd â'r Gost Cyfalaf uchaf. Gallai fod amser teithio ychwanegol posibl i ddysgwyr yn dibynnu ar y lleoliad. Gallai hefyd fod yn anoddach i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, neu i'r ysgol gael ei defnyddio fel adnodd cymunedol. Efallai y bydd rhai rhanddeiliaid yn ystyried bod ysgol â chapasiti o 1,750 o ddysgwyr yn rhy fawr i Ynys Môn. |
| 8. Adolygu'r ddarpariaeth ysgol a gwasanaeth yn Ysgol Uwchradd Caergybi gan edrych ar enghreifftiau megis clwstwr ysgolion, defnyddio'r ysgolion fel canolfannau cymunedol i ddarparu ar gyfer/cefnogi gwasanaethau cymunedol e.e. iechyd, cyfleusterau gofal plant, dysgu teuluol ac oedolion, addysg gymunedol, | Nid yw'n mynd i'r afael â chyflwr yr ysgol, yn enwedig RAAC.<br>Posibilrwydd o broblemau diogelu plant ychwanegol, gyda gwasanaethau eraill yn rhannu safle'r ysgol. |

| | |
|---|---|
| chwaraeon, hamdden, gweithgaredd cymdeithasol. Cydleoli gwasanaethau lleol o fewn ysgolion i wrthbwyso costau cynnal yr ysgol. | |

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

| |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. |

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

| |
|---|
| Mae'n unol â'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg (a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2023). |

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

| |
|---|
| Amcangyfrifir bod y gost arfaethedig yn £66 miliwn, a bydd y rhan fwyaf ohoni'n cael ei ariannu drwy Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Model Buddsoddi Cydfuddiannol.<br><br>Amcangyfrifir bod cyfraniad y Cyngor (amcangyfrif) tuag at gost gwasanaeth flynyddol am 25 mlynedd (MIM) o ddyddiad agor yr adeilad ysgol newydd (Medi 2030) yn £1,238,218, sy'n cael ei ystyried yn fforddiadwy. Bydd angen cyllidebu ar gyfer hyn o 2030/31 ymlaen.<br><br>Bydd yna hefyd rai costau (£5.163m) nad ydynt yn gymwys i'w hariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol a byddant yn cael eu trin fel cynllun Cyfalaf. Cyfradd ymyrraeth grant Llywodraeth Cymru ar gyfer y costau hyn yw 65%. Bydd y 35% sy'n weddill (£1.8m) yn cael ei ariannu o Dderbyniadau Cyfalaf o werthu'r safle presennol, a thrwy fenthyca heb gymorth. Mae'r ad-daliadau blynyddol wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r dull blwydd-dal, sy'n golygu y byddai'r swm a fyddai'n cael ei ad-dalu yn is yn y cyfnod benthyciad cychwynnol a bydd yn uwch yn ystod camau olaf y cyfnod benthyciad. Amcangyfrifir y bydd yr ad-daliadau blynyddol yn dechrau ar £60,324 o 2028/29 ymlaen, ac mae angen cyllidebu ar gyfer hyn hefyd. |

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

| |
|---|
| Bydd y penderfyniad posibl hwn yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor addysg uwchradd yn ardal Caergybi ac yn sicrhau bod digon o leoedd ysgol i ddiwallu'r anghenion nawr ac yn y dyfodol. Bydd hefyd yn sicrhau bod adeiladau ysgolion newydd yn addas at y diben ac yn bodloni safonau BREEAM a safonau rhaglen Moderneiddio Cymunedau Dysgu Llywodraeth Cymru. |

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

| |
|---|
| Ydw, fel a ganlyn: |

Byddai'r Cyngor yn osgoi gorfod talu'r gost cynnal a chadw gyfredol a rhagamcanedig o bron i £29 miliwn (2024) yn yr hen adeilad.

Gan y bydd y prosiect yn cael ei ariannu drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM), gallai'r cynnig arwain at arbedion yn y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw ganolog am y 25 mlynedd nesaf.

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig rhwng 5 Mehefin 2025 a 17 Gorffennaf 2025 ac ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid canlynol:
- Staff (Addysgu ac Ategol) Ysgol Uwchradd Caergybi
- Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid Ysgol Uwchradd Caergybi
- Penaethiaid a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgolion Cynradd yn yr ardal dalgylch
- Aelodau Etholedig Lleol
- Aelod Seneddol Lleol
- Aelod Senedd Lleol
- Aelodau Senedd Rhanbarthol
- Llywodraeth Cymru - Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu
- Estyn
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Comisiynydd yr Iaith Gymraeg
- Grŵp Llandrillo Menai
- MEDR - Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
- Awdurdod Lleol Cyfagos
- Cynghorau Tref a Chymuned Lleol
- Undebau llafur addysgu a staff sy'n cynrychioli Ysgol Uwchradd Caergybi
- Canolfan Addysg Y Bont
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Awdurdod Esgobaethol Catholig

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Ydw. Cynhaliodd y Cyngor broses ymgynghori statudol o 5 Mehefin 2025 i 17 Gorffennaf 2025 mewn perthynas â'r cynnig canlynol i:

“Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed”.

Pwrpas yr ymgynghoriad statudol oedd ceisio barn rhanddeiliaid/partïon â diddordeb ar y cynnig.
Derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 1,023 o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol drwy'r ffurflen ymateb ar-lein. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad pellach.

| Categori'r ymatebwr | Canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Dysgwr / disgybl | 32.3% | 329 |
| Llywodraethwr ysgol | 1.2% | 12 |
| Staff | 6.6% | 67 |
| Rhiant / gwarcheidwad | 22.5% | 229 |
| Aelod etholedig | 1.2% | 12 |
| Cynghorydd tref / cymuned | 0.6% | 6 |
| Preswylydd lleol | 42.1% | 429 |
| Arall*(e.e. cyn-ddisgybl) neu heb nodi | 3.4% | 35 |

Ymatebodd rhai rhanddeiliaid mewn mwy nag un swyddogaeth e.e. ymateb fel rhiant/gwarcheidwad a llywodraethwr ysgol,sydd wedi'i gofnodi fel un ymateb yn y cyfanswm cyffredinol o 1023.

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl a staff waeth beth fo'u gallu a'u cefndir. Gweler yr Asesiad Effaith am ragor o wybodaeth.
ASESIAD EFFAITH - YUC 130525.docx

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Gweler yr Asesiad Effaith am ragor o wybodaeth.
ASESIAD EFFAITH - YUC 130525.docx

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhagwelir y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.
ASESIAD EFFAITH - YUC 130525.docx

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 2. Cyllid / Swyddog 151 | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |

| | |
|---|---|
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Wedi'i ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 4. Adnoddau Dynol | Dylid ymdrin ag unrhyw faterion AD sy'n deillio o'r argymhellion yn unol ag AD a phrosesau AD cydnabyddedig eraill. |
| 5. Eiddo | Mae swyddogion eiddo wedi bod yn amcangyfrif costau posibl y prosiect a byddent yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r tîm wrth symud ymlaen. |
| 6. Technoleg Gwybodaeth | Os caiff y cynnig ei gymeradwyo a'r prosiect posibl ei gymeradwyo, byddai achosion busnes yn cael eu paratoi yn unol â chanllawiau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd y gwariant posibl ar "Dodrefn, Ffitiadau ac Offer / Technoleg Gwybodaeth" yn unol â meincnod cost Llywodraeth Cymru yn y canllawiau hynny. |
| 7. Caffael | Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, yna byddai angen trafodaethau pellach o ran cyllid drwy'r Dull Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). |
| 8. Sgriwtini | Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn adrodd yn ôl ar lafar o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2025. |
| 9. Aelodau lleol | Dim sylw. |

F – Atodiadau

| |
|---|
| Atodiad 1 - Adroddiad ymgynghori Ysgol Uwchradd Caergybi. |

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

- Asesiad Effaith (sy'n asesu Cydraddoldeb, Iaith, Cymuned)
  Asesiad effaith: YUC
- Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018
  cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf
- Adroddiad ar y broses ymgysylltu ar y ddarpariaeth addysg ôl-16
  Adroddiad Ymgysylltu Darpariaeth Addysg l-16.pdf
- Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg (Gorffennaf 2023)
  Strategaeth Moderneiddio Cymunedau.pdf
- Rhaglen Amlinellol Strategol – Rhaglen Dreigl (RhAS / SOP) (Mawrth 2024) (cymeradwywyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru drwy lythyr ar 12 Awst 2024).

  Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) – Rhaglen

**ADRODDIAD YMGYNGHORI**

**MODERNEIDDIO YSGOLION**

**Canlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng**

**5 Mehefin 2025 a 17 Gorffennaf 2025**

**Ar y cynnig i:**

**Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed**

**Hydref 2025**

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

## CYNNWYS

**1. CYFLWYNIAD ........ 3**
**2. DOSBARTHU'R ADRODDIAD YMGYNGHORI ........ 3**
**3. Y CYNNIG ........ 4**
**3.1 Manylion Arfaethedig yr Ysgol Uwchradd Caergybi newydd** ........ 4
**3.2 Y Dyluniad Arfaethedig** ........ 4
**4. TREFNIADAU'R YMGYNGHORI ........ 6**
**4.1 Methodoleg** ........ 6
**4.2 Cyfarfodydd Ymgynghori** ........ 7
**5. YMATEBION A SYLWADAU ........ 8**
**5.1 Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ar y ffurflen ymateb ar-lein** ........ 8
**5.2 Ymatebion a gafwyd ar y ffurflen ymateb ar-lein** ........ 8
5.2.1. **Cwestiwn -** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i "Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed"? Ydw/Nac ydw? ........ 9
5.2.2. **Cwestiwn -** A hoffech chi wneud sylwadau ar y cynnig i: "Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed". ........ 9
5.2.3. **Cwestiwn -** A hoffech chi awgrymu opsiynau amgen rhesymol eraill sy'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol y mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn eu hwynebu? ........ 11
**5.3 Crynodeb o ymateb a dderbyniwyd trwy e-bost** ........ 13
**5.4 Ymateb Estyn** ........ 14
5.4.1. Ymateb Y Cyngor ........ 14
**5.5 Crynodeb o'r ymatebion gan ddysgwyr** ........ 16
5.5.1 Sesiwn gyda dysgwyr yn Ysgol Uwchradd Caergybi 2 Gorffennaf 2025 ........ 16
5.5.2 Sesiwn rithiol gyda dysgwyr ysgolion cynradd 8 Gorffennaf 2025 ........ 19
**6 CASGLIAD ........ 22**
**6.1 Cadarnhad a ddylid gweithredu'r cynnig gwreiddiol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol)** ........ 22
**6.2 Argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith** ........ 22
**7 ADRODDIAD ESTYN ........ 24**

ATODIAD 1

## 1. CYFLWYNIAD

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ddyletswydd statudol i sicrhau digon o leoedd addas i blant o fewn ysgolion y sir.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) i ymgynghori â rhanddeiliaid wrth ystyried cynigion ad-drefnu ysgolion sy'n bodloni maen prawf penodol.

Cynhaliodd y Cyngor broses ymgynghori statudol o 5 Mehefin 2025 hyd 17 Gorffennaf 2025 mewn perthynas â'r cynnig canlynol i:

**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed".**

Diben cynnal ymgynghoriad statudol oedd ceisio barn rhanddeiliaid/partïon â diddordeb ar y cynnig.

Mae'r adroddiad ymgynghori hwn bellach yn cynrychioli cyfrifoldebau'r Cyngor yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) i gynhyrchu adroddiad i hysbysu rhanddeiliaid/partïon â diddordeb o ganlyniad yr ymgynghoriad statudol drwy'r canlynol:

- Crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan randdeiliaid/partïon â diddordeb;
- Ymateb i'r materion drwy egluro, diwygio'r cynnig, neu wrthod y pryderon gyda rhesymau ategol;
- Nodi barn Estyn ar y cynnig yn llawn gydag ymateb y Cyngor;
- Mynegi barn plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan y cynnig.

## 2. DOSBARTHU'R ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cyhoeddwyd yr adroddiad ymgynghori ar wefan y Cyngor www.ynysmon.llyw.cymru ac fe hysbyswyd y rhanddeiliaid / partïon â diddordeb canlynol yn uniongyrchol am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori.

- Staff (Addysgu ac Ategol) Ysgol Uwchradd Caergybi
- Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid Ysgol Uwchradd Caergybi
- Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr Ysgolion Cynradd y dalgylch
- Aelodau Etholedig Lleol
- Yr Aelod Seneddol Lleol
- Yr Aelod Lleol o Senedd Cymru
- Aelodau Rhanbarthol Senedd Cymru
- Llywodraeth Cymru - Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Estyn
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Comisiynydd yr Iaith Gymraeg
- Grŵp Llandrillo Menai
- MEDR - Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
- Awdurdod Lleol Cyfagos
- Cynghorau Tref a Chymuned Lleol
- Undebau llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli Ysgol Uwchradd Caergybi
- Canolfan Addysg Y Bont
- Yr Eglwys yng Nghymru

- Yr Awdurdod Esgobaethol Catholig

## 3. Y CYNNIG

Ymgynghorodd y Cyngor ar y cynnig i:

**"Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed".**

### 3.1 Manylion Arfaethedig yr Ysgol Uwchradd Caergybi newydd

Mae manylion arfaethedig yr Ysgol Uwchradd Caergybi newydd wedi eu nodi isod:

| | |
|---|---|
| **Ystod oed** | 11-18. |
| **Cyfanswm y lleoedd i ddysgwyr** | 900 (750 blwyddyn 7-11 a 150 blwyddyn 12 - 13). |
| **Rhif mynediad fesul blwyddyn academaidd** | 150 (yn seiliedig ar flwyddyn 7-11 yn unig). |
| **Lleoliad** | Tir ger Canolfan Hamdden Caergybi, yn amodol ar gaffael tir yn llwyddiannus. |
| **Categori** | Cymunedol. |
| **Categori iaith** | T3 - Cyfrwng Cymraeg trosiannol.<br>Mae'r ysgol yn symud tuag at gategori 3 erbyn mis Medi 2029. |
| **Cyfleusterau arfaethedig** | Cyfleuster Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i wireddu Cwricwlwm i Gymru (CiG). |
| **Cost Ddisgwyliedig y Prosiect** | Tua £66m - gyda £60.7m i'w gyflawni drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (Llywodraeth Cymru'n cyfrannu 81% tuag at y Tâl Gwasanaeth Blynyddol drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy / y Cyngor yn cyfrannu 19%), gyda'r £5.2m sy'n weddill wedi'i ariannu drwy gyfalaf y Cyngor (35%) a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (65%). |

### 3.2 Y Dyluniad Arfaethedig

Yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru - Canllawiau Arwynebedd ar gyfer Ysgolion yng Nghymru – Canllawiau Adeiladu(WG51809), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, cynigir y bydd dyluniad yr ysgol ar gyfer yr Ysgol Uwchradd Caergybi newydd yn cynnwys:

| Ystafelloedd/Ardaloedd | Enghreifftiau |
| --- | --- |
| **Ystafelloedd addysgu** | Dylunio a Thechnoleg Celf, Cerddoriaeth a Drama a Labordai Gwyddoniaeth |
| **Ardaloedd Adnoddau Dysgu** | Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Llyfrgell |
| **Gweinyddu / Staff** | Swyddfa'r Pennaeth, swyddfa Gymunedol a swyddfa arall, Ystafelloedd Gwaith Staff |
| **Storio (Addysgu)** | Storfeydd Offerynnau, Storfeydd Addysg Gorfforol |
| **Storio (heblaw addysgu)** | Offer ADY, loceri, storfa'r glanhawr |
| **Ardaloedd Bwyta / Cymdeithasol** | Ardal Fwyta, ardal gymdeithasu a brechdanau |
| **Cyfleusterau Arlwyo** | Cegin ac ardal gweini bwyd |
| **Arall** | Toiledau, Ystafelloedd Newid Disgyblion a chawodydd |

Byddai'r Cyngor yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Os oes gan rieni â disgyblion sydd wedi'u cofrestru ag ADY unrhyw gwestiynau ynghylch y gefnogaeth a gynigir, gellir trefnu cyfarfodydd unigol gyda'r Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol, E-bost: ffionellis2@ynysmon.llyw.cymru Ffôn 01286 679007.

## 4. TREFNIADAU'R YMGYNGHORI

Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mai 2025, awdurdododd Pwyllgor Gwaith y Cyngor swyddogion i gynnal ymgynghoriad statudol yn unol â'r gofynion a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

### 4.1 Methodoleg

Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad rhwng 5 Mehefin 2025 a 17 Gorffennaf 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, gwahoddwyd rhanddeiliaid / partïon â diddordeb i fynegi eu barn ar y cynnig i:

**Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed.**

Cafodd y ddogfen ymgynghori https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriadau/Ymgynghoriadau-blaenorol/Ymgynghoriad-statudol-Ysgol-Uwchradd-Caergybi.aspx a'r asesiad effaith ASESIAD EFFAITH - YUC 130525.docx

eu darparu ar gyfer yr holl randdeiliaid a phartïon â diddordeb a restrir yn adran 2.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori a'r asesiad effaith ar wefan y Cyngor hefyd.

Cododd y Cyngor ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad drwy rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor a thrwy arddangos posteri gyda chodau QR mewn mannau cyhoeddus lleol e.e. llyfrgelloedd.

Cynhyrchwyd fersiwn Hawdd ei Darllen o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb hefyd ac roedd ar gael ar wefan y Cyngor.

Hysbyswyd y rhai a ymgynghorwyd â hwy hefyd am y cyfleoedd canlynol i ymateb i'r cynnig ymgynghori neu ofyn cwestiynau drwy:

- Anfon e-bost i ysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru neu
- Gwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein neu
- Gwblhau ffurflen ymateb bapur a'i phostio'n ôl at y Rheolwr Rhaglen (Moderneiddio Ysgolion), Gwasanaeth Adnoddau Dynol a Thrawsnewid, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW

Roedd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori neu fformatau amgen hefyd ar gael ar gais.

## 4.2 Cyfarfodydd Ymgynghori

Cynhaliwyd y cyfarfodydd/sesiynau canlynol i gyflwyno'r dogfennau ymgynghori ac egluro'r broses ymgynghori i Ddysgwyr, Staff, Llywodraethwyr, Rhieni / Gwarcheidwaid a phob parti arall â diddordeb a fynychodd.

Cynghorwyd y mynychwyr o bwysigrwydd ymateb i'r ymgynghoriad fel y disgrifir yn adran 4.1 gan na chymerwyd unrhyw gofnodion ffurfiol yn y cyfarfodydd ymgynghori.

Cynhaliwyd gweithdy wyneb yn wyneb, a hwyluswyd gan staff yr Ysgol a'r Cyngor, gyda chyngor ysgol Ysgol Uwchradd Caergybi a dysgwyr eraill yn ogystal â sesiwn 'Teams' rithiol gyda chynghorau ysgolion cynradd y dalgylch.

Cynhaliwyd y broses ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

| Dyddiad | Ysgol/Lleoliad | Rhanddeilaid | Amser |
|---|---|---|---|
| 2 Gorffennaf 2025 | Ysgol Uwchradd Caergybi | Cyngor ysgol Ysgol Uwchradd Caergybi a dysgwyr eraill | 2:00pm-3:00pm |
| 2 Gorffennaf 2025 | Ysgol Uwchradd Caergybi | Staff a Llywodraethwyr | 4:00 pm – 5:00 pm |
| 2 Gorffennaf 2025 | Ysgol Uwchradd Caergybi | Rhieni/Gwarcheidwaid | 5:30 pm - 6:30 pm |
| 8 Gorffennaf 2025 | Sesiwn ‘Teams’ rithiol | Cynghorau Ysgolion Cynradd y Dalgylch | 10:00am-11:00am |

## 5. YMATEBION A SYLWADAU

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi'r holl ymatebion a sylwadau a dderbyniwyd gan randdeiliaid i'r ymgynghoriad statudol. Derbyniwyd ymatebion ar-lein (ffurflen ymateb), a thrwy e-bost.

### 5.1 Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ar y ffurflen ymateb ar-lein

Derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 1,023 o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol drwy'r ffurflen ymateb ar-lein. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad pellach.

| Categori'r ymatebwr | Canran | Cyfanswm yr ymatebion |
|---|---|---|
| Dysgwr / disgybl | 32.3% | 329 |
| Llywodraethwr ysgol | 1.2% | 12 |
| Staff | 6.6% | 67 |
| Rhiant / gwarcheidwad | 22.5% | 229 |
| Aelod etholedig | 1.2% | 12 |
| Cynghorydd tref / cymuned | 0.6% | 6 |
| Preswylydd lleol | 42.1% | 429 |
| Arall*(e.e. cyn-ddisgybl) neu heb nodi | 3.4% | 35 |

Ymatebodd rhai rhanddeiliaid mewn mwy nag un swyddogaeth e.e. ymateb fel rhiant/gwarcheidwad a llywodraethwr ysgol llywodraethwr sydd wedi'i gofnodi fel un ymateb yn y cyfanswm cyffredinol o 1023.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar y ffurflen ymateb bapur.

### 5.2 Ymatebion a gafwyd ar y ffurflen ymateb ar-lein

Mae'r adran hon yn rhoi ymatebion rhanddeiliaid i'r tri chwestiwn a ofynnwyd mewn perthynas â'r cynnig.

Gofynnwyd cwestiwn pellach ynghylch y Gymraeg hefyd fel a ganlyn:

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n credu sydd? Sut gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, neu leihau effeithiau negyddol?


Mae'r adborth a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ar gael yn yr asesiad effaith wedi'i ddiweddaru ASESIAD EFFAITH - YUC 130525.docx

5.2.1. **Cwestiwn** - Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i "Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed"? Ydw/Nac ydw?

Mae'r tabl isod yn dangos bod 79% o'r rhanddeiliaid a atebodd y cwestiwn hwn ar y ffurflen ymateb ar-lein yn cytuno â'r cynnig, gyda 21% yn anghytuno â'r cynnig. Ni wnaeth 58 o ymatebion y rhanddeiliaid ateb y cwestiwn hwn.

| Dewis ateb | Canran ymateb | Niferoedd ymateb |
|---|---|---|
| Ydw | 79% | 760 |
| Nac ydw | 21% | 205 |
| Dim ateb | | 58 |

Mae'r graff isod yn dangos dewis ateb y rhanddeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn hwn.




5.2.2. **Cwestiwn** - A hoffech chi wneud sylwadau ar y cynnig i: "Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed".

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) mae'r tabl isod yn crynhoi'r materion a godwyd gan y rhanddeiliaid ynghyd ag ymateb y Cyngor drwy egluro, diwygio'r cynnig neu wrthod pryderon gyda rhesymau ategol.

| Crynodeb o'r materion a godwyd gan randdeiliaid | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Nododd tua hanner y rhanddeiliaid a atebodd "na" i'r cynnig fod y safle arfaethedig ger y ganolfan hamdden yn rhy bell o'r safle presennol a chanol y dref.<br>Dyma sylwadau sy'n adlewyrchu'r materion a godwyd: | Mae gwerthusiad manwl o opsiynau wedi'i gwblhau o safleoedd posibl yn ardal Caergybi, a'r safle ger y ganolfan hamdden yw'r unig safle sy'n bodloni'r gofynion.<br>Nid yw'r safle wedi'i gadarnhau ac efallai y bydd amseroedd a chostau teithio ychwanegol.<br><br>Fodd bynnag, rhagwelir y gallai rhai costau cludiant gael eu lleihau oherwydd dylai'r dysgwyr hynny sy'n |

| | |
|---|---|
| • Mae'r lleoliad arfaethedig allan o'r ffordd i lawer o ddisgyblion<br>• Llawer rhy bell i blant gerdded i'r ysgol<br>• | dymuno cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gwbl ddwyieithog allu aros o fewn dalgylch eu hysgol a pheidio â chael eu cludo i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf. Ar ben hynny, gall dysgwyr eraill benderfynu aros o fewn eu dalgylch oherwydd bod ganddynt fynediad at adeilad ysgol newydd ac adnoddau modern.<br><br>Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cymorth teithio yn unol â Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r Cyngor yn darparu cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr ysgol uwchradd llawn amser sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch (ac eithrio dysgwyr 6ed dosbarth / myfyrwyr addysg bellach).<br>Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y polisi cludiant ysgol:<br>https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Cludiant-ysgol/Polisi-Cludiant-Ysgol.aspx<br><br>Mae'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi'i chysylltu â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod uchelgais clir i wella llwybrau cerdded a beicio i'n helpu i gyflawni ein hamcanion amgylcheddol ac iechyd. Os derbynnir y cynnig, bydd cynlluniau teithio llesol yn cael eu hadolygu a'u paratoi yn unol â'r Ddeddf ar gyfer adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi unwaith y bydd y safle newydd wedi'i gadarnhau. |
| Awgrymodd lleiafrif o randdeiliaid adnewyddu'r adeilad presennol / ailadeiladu ar y safle presennol. | Mae'r Cyngor eisoes wedi ystyried ac wedi diystyru adnewyddu'r adeilad presennol fel opsiwn fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.<br>Ni fyddai arwynebedd y safle presennol yn bodloni Canllawiau Arwynebedd Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yng Nghymru Canllawiau Adeiladu ( WG51089).<br>27,000m² yw arwynebedd safle'r ysgol bresennol yn ac mae'r Arwynebedd Safle Gros sydd ei angen ar gyfer ysgol newydd heb gaeau chwarae yn 31,625m².<br>Mae gwerthusiad pellach o ailadeiladu ar y safle presennol ar gael isod yn 5.2.3. |
| Ychydig iawn a wnaeth sylwadau am gost uchel yr adeilad ysgol newydd arfaethedig. | Amcangyfrifir bod y gost arfaethedig yn £66 miliwn, a bydd y rhan fwyaf ohono 'n cael ei ariannu drwy fodel buddsoddi cydfuddiannol Model Buddsoddi Cydfuddiannol.<br>Cyfraniad y Cyngor (amcangyfrif) tuag at gost gwasanaeth blynyddol am 25 mlynedd (MBC) yw £1,238,218 sy'n cael ei ystyried yn fforddiadwy. |

5.2.3. **Cwestiwn** - A hoffech chi awgrymu opsiynau amgen rhesymol eraill sy'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol y mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn eu hwynebu?

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) rhoddwyd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ynghylch yr opsiynau amgen a nodwyd gan y Cyngor yn ogystal â'r prif gynnig.

Rhoddwyd cyfle hefyd i randdeiliaid awgrymu opsiynau amgen eraill a fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol y mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn eu hwynebu y mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â nhw.

Awgrymodd llawer o'r rhanddeiliaid mewn ymateb i'r cwestiwn hwn adnewyddu'r adeilad presennol / ailadeiladu ar y safle presennol. Mae'r Cyngor eisoes wedi ystyried ac wedi diystyru adnewyddu'r adeilad presennol fel opsiwn fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Mae'r Cyngor wedi ystyried ymhellach ailadeiladu o'r newydd ar y safle presennol ac wedi gwrthod yr opsiwn hwn gyda'r rhesymau yn y tabl isod.

| Opsiwn ychwanegol i'w ystyried | Prif resymau dros wrthod |
|---|---|
| **Ailadeiladu o'r newydd ar y safle presennol** | **Safle**<br>• Ni fyddai arwynebedd y safle presennol yn bodloni Canllawiau Arwynebedd Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yng Nghymru Canllawiau adeiladu (WG51809)<br>• Arwynebedd safle'r ysgol bresennol yw 27,000m². Yr arwynebedd Safle Gros sydd ei angen ar gyfer ysgol newydd heb gaeau chwarae yw 31,625m². |
| | **Cost**<br>• Amcangyfrifir bod costau dymchwel ar gyfer dymchwel graddol a gwaredu deunydd oddi ar y safle yn £1,307,040.<br>• Amcangyfrifir bod cost Adeiladu a Datblygu Safle newydd wrth i'r dymchwel fynd rhagddo yn £60,697,000.<br>• Felly, cyfanswm cost yr Opsiwn yw £62,004,040 (o'i gymharu â £66 miliwn ar gyfer y safle newydd). |
| | **Heriau**<br>• Byddai angen rhaglen ddymchwel ac ailadeiladu fesul cam dros gyfnod o 5-6 mlynedd.<br>• Byddai angen addysgu nifer fawr o ddysgwyr o bell neu eu hadleoli i adeiladau eraill am gyfnodau hir iawn.<br>• Effaith ar ddysgwyr, staff a phob defnyddiwr yn ystod y cyfnod.<br>• Effaith enfawr yn ystod y dymchwel o ran sŵn a llwch yn effeithio ar holl ddefnyddwyr y safle a thrigolion cyfagos.<br>• Effaith enfawr yn ystod y gwaith adeiladu o ran sŵn a llwch yn effeithio ar holl ddefnyddwyr y safle a thrigolion cyfagos. |

| | |
|---|---|
| | • Ardaloedd chwarae a chymdeithasu allanol cyfyngedig ar gael dros y cyfnod adeiladu a allai effeithio ar lesiant y disgyblion.<br>• Effaith ar nifer y safleoedd parcio staff ac ymwelwyr fydd ar gael ar y safle dros y cyfnod adeiladu.<br>• Lle cyfyngedig ar gael ar y safle ar gyfer compownd contractwyr, cyfleusterau lles a storio deunyddiau.<br>• Tarfu tebygol ar wasanaethau yn ystod y dymchwel / ailadeiladu.<br>• Mae'n debyg y byddai angen i'r rhan fwyaf o'r adeilad newydd fod yn strwythur 4 llawr fyddai'n creu problemau hygyrchedd posibl.<br>• Lle cyfyngedig ar gael ar gyfer unrhyw ddosbarthiadau dros dro ar y safle yn ystod y gwaith adeiladu. |

**5.3 Crynodeb o ymateb a dderbyniwyd trwy e-bost**

| Rhanddeiliad/Parti â Diddordeb | Crynodeb o'u hymateb | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|
| RhAG / Rhieni dros Addysg Gymraeg | Nododd RhAG eu bod yn “gwerthfawrogi'r heriau y mae'r ysgol wedi'u hwynebu'n ddiweddar ynghylch yr adeiladau, ac mae'n dda gweld bod ymateb cadarnhaol wedi bod er mwyn gweld y gymuned ddysgu yn derbyn adeiladau addas”.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r ymateb yn ymwneud â'r ysgol yn trawsnewid dros y 4 blynedd nesaf i ysgol cyfrwng Cymraeg categori 3. Mae'n galw ar y Cyngor i sicrhau bod cynyddu cyfleoedd addysg iaith Gymraeg yn ystyriaeth ganolog i'r cynnig hwn. | Ymateb wedi'i nodi.<br><br>Eglurodd y Cyngor yn y ddogfen ymgynghori (5.4.8) fod y newid categori iaith yn annibynnol ar y cynnig.<br>Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yw'r prif ysgogydd strategol ar gyfer datblygu addysg iaith Gymraeg yn lleol. Mae mesurau priodol ar waith i gefnogi Ysgol Uwchradd Caergybi (YUC) i ddod yn ysgol cyfrwng Cymraeg categori 3 o fewn amserlen y cytunwyd arni. Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar y mesurau hynny nac yn amharu arnynt.<br><br>Bydd y pwyntiau a godwyd gan RhAG yn cael eu hystyried fel rhan o gynllun trawsnewid categori iaith YUC. |

### 5.4 Ymateb Estyn

Yn unol â'r cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) mae ymateb Estyn i'r ymgynghoriad wedi'i nodi'n llawn yn rhan 7. (Mae'r llythrennau trwm wedi'u mewnosod gan y Cyngor).

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid corff yw Estyn sy'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod, ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff sy'n cael ei ymgynghori, dim ond ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn rhoi ei farn.

5.4.1. Ymateb Y Cyngor

Dymuna'r Cyngor egluro/ymateb i rai materion a nodwyd yn ymateb Estyn fel a ganlyn:

| **Ymateb Estyn** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|
| Bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu ger Canolfan Hamdden Caergybi ac mae'n ymddangos bod y cynllun am gostio £66 miliwn, gyda 65% o'r gost yn gyfraniad gan Lywodraeth Cymru a 35% yn gyfraniad gan y Cyngor. | Amcangyfrifir bod cost y cynnig ar hyn o bryd, yn dibynnu ar y canlyniad, yn £65.9m os caiff ei gyflwyno fel cynllun MBC; mae'n cael ei gynnig bydd hyn yn cael ei ariannu'n rhannol gan y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.<br>Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd Cynghorau i ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC) i ariannu prosiectau adeiladu newydd o werth sylweddol. Model Buddsoddi Cydfuddiannol<br>Cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu prosiectau MBC Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yw 81%, gyda'r 19% sy'n weddill yn cael ei ariannu gan y Cyngor. Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r adeilad newydd yn gymwys i'w gyflawni a'i ariannu gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Byddai unrhyw gostau nad ydynt yn gymwys i'w hariannu trwy'r MBC yn cael eu hariannu fel gwariant Cyfalaf. Cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru ar gyfer costau Cyfalaf yw 65%, gyda'r 35% sy'n weddill yn cael ei ariannu gan y Cyngor. |
| Os caiff y cynnig ei weithredu, mae'n ymddangos efallai y bydd angen adolygu'r strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth presennol. Os yw ar leoliad mwy, mae'n debygol y bydd angen mwy o reolaeth safle. Nid yw hi'n glir o'r | Mae'r Cyngor yn cadarnhau y bydd y tîm arweinyddiaeth yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad i reoli'r safle newydd. |

| | |
|---|---|
| cynnig os fydd y tîm arweinyddiaeth yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad gan yr awdurdod lleol i sicrhau fod arferion gorau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael eu mabwysiadu. | |

### 5.5 Crynodeb o'r ymatebion gan ddysgwyr

Yn yr adran hon, darperir adborth o sesiynau'r dysgwyr yn Ysgol Uwchradd Caergybi a'r sesiwn 'Teams' rithiol a gynhaliwyd gyda'r ysgolion cynradd.
Cynhaliwyd y ddwy sesiwn/proses ymgynghori gyda dysgwyr yn unol ag Adran 3.5 o God Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

Esboniodd y swyddogion fod y Cyngor yn gyfrifol am ysgolion ar Ynys Môn a bod gan y Cyngor yr uchelgais o sicrhau bod ein holl blant a phobl ifanc, er gwaethaf eu cefndir a'u hamgylchiadau, yn cyflawni eu potensial llawn, gan alluogi pob dysgwr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm sef:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog,
- Cyfranwyr mentrus, creadigol,
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus,
- Unigolion iach, hyderus.

Atgoffwyd y dysgwyr o Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, h.y. 'Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried'.

Eglurwyd y byddai'r wybodaeth a gyflwynwyd ganddynt yn cael ei throsglwyddo i adroddiad a'i chyflwyno i Gynghorwyr fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol a fydd wedyn yn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

5.5.1 Sesiwn gyda dysgwyr yn Ysgol Uwchradd Caergybi 2 Gorffennaf 2025

Ymwelodd swyddogion y cyngor ag Ysgol Uwchradd Caergybi, i gael gwybod eu barn ar y cynnig. Mynychwyd y sesiwn gan dros 30 o ddysgwyr yn cynrychioli'r ysgol.

Gofynnwyd i ddysgwyr roi eu sylwadau yn seiliedig ar y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori:

Isod nodir eu hymatebion <u>**cryno**</u> yn **eu geiriau eu hunain.**

| | **Cwestiynau a drafodwyd** | **Ymatebion** |
|---|---|---|
| 1. | Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i "Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed"? | Cytunodd yr holl ddisgyblion a fynychodd y sesiwn â'r cynnig. Fodd bynnag, er eu bod yn cytuno â'r cynnig, dywedodd rhai:<br>• Efallai y byddai'n anodd i ddisgyblion sy'n cerdded i'r ysgol gael mynediad at gludiant i fynd i'r lleoliad newydd gan y bydd y tu allan i ganol y dref.<br>• Efallai y byddai'n heriol i'r rhai ag anableddau corfforol gyrraedd yno.<br><br>**Ymateb y Cyngor**<br>Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cymorth teithio yn unol â Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r Cyngor yn darparu cludiant ysgol am ddim i |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddysgwyr ysgol uwchradd llawn amser sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch (ac eithrio dysgwyr 6ed dosbarth / myfyrwyr addysg bellach).<br>Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y polisi cludiant ysgol: [https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Cludiant-ysgol/Polisi-Cludiant-Ysgol.aspx](https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Cludiant-ysgol/Polisi-Cludiant-Ysgol.aspx)<br>Mae'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn gysylltiedig â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod uchelgais clir i wella llwybrau cerdded a beicio i'n helpu i fodloni ein hamcanion amgylcheddol ac iechyd. Os derbynnir y cynnig, bydd cynlluniau teithio llesol yn cael eu hadolygu a'u paratoi yn unol â'r Ddeddf ar gyfer adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi unwaith y bydd safle newydd wedi'i gadarnhau.<br><br>Bydd y Cyngor yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac anabledd. Bydd anghenion unigol dysgwyr ag ADY ac anabl yn cael eu hasesu ar adeg trosglwyddo i unrhyw ysgol. |
| 2.<br><br><br>3. | A hoffech chi wneud sylwadau ynghylch y cynnig?<br><br>A hoffech chi awgrymu opsiynau amgen rhesymol eraill sy'n mynd i'r afael â'r heriau allweddol y mae Ysgol Uwchradd Caergybi yn eu hwynebu? | Rhoddodd y dysgwyr eu sylwadau yn ogystal â'r hyn yr hoffent ei weld yn yr adeilad ysgol newydd.<br><br>**Crynodeb o'r sylwadau**<br>• Mae'r sefyllfa gyda RACC wedi effeithio ar addysg y disgyblion. Bydd yr ysgol newydd yn amgylchedd gwell i ddisgyblion ddysgu ynddo ac rwy'n credu na fydd yr arian yn cael ei wastraffu.<br>• Gan fod yr adeilad ysgol newydd wedi'i gynnig i fod wrth ymyl y ganolfan hamdden, yna gallwn ddefnyddio'r cyfleusterau yno hefyd.<br>• Mwy o ffocws ar glybiau ar ôl ysgol a chyfranogiad cymunedol ar y safle newydd. Gellid rhentu/codi tâl am ddefnyddio'r neuadd.<br>• Bydd strwythur yr ysgol yn fwy diogel, gan helpu dysgwyr i deimlo'n fwy cyfforddus yn amgylchedd eu hysgol.<br>• Rwy'n meddwl y byddai'n well pe bai'r adeilad presennol yn cael ei adnewyddu a'i gadw lle mae.<br><br>**Crynodeb o'r hyn yr hoffent ei weld yn yr adeilad ysgol newydd**<br><br>• Mwy o le awyr agored a chanopi ar gyfer dysgu awyr agored. Byddem yn hoffi cae pêl-droed a rygbi hefyd.<br>• Ystafell gyffredin fawr i ddisgyblion a gweithgareddau cymdeithasol.<br>• Ystafell / ardal lle gallem ni fynd bob amser am gefnogaeth i wneud i ddisgyblion deimlo'n hyderus ac yn ddiogel ynddynt eu hunain a'u haddysg (Fel Ystafell Pawb yn YUC) |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol yn cael ei addysgu i bob disgybl ac athro.<br>• Hoffem gael theatr a llwyfan proffesiynol gyda phropiau a gwisgoedd.<br>• Mwy hygyrch i ddisgyblion ag anableddau.<br>• Parcio gwell ar y safle newydd.<br>• Ystafelloedd adolygu / mannau tawel / llyfrgell ar gyfer TGAU.<br>• Mwy o wybodaeth am sut i gael mynediad i'r coleg, pa TGAU sydd eu hangen arnoch chi ac ati. Neu fwy o gymorth ar sut i astudio yn y brifysgol a rhoi cefnogaeth ar sut i gael lle yno.<br>• Loceri ar gyfer disgyblion.<br>• Mwy o opsiynau pwnc ar gael ar gyfer Blwyddyn 12-13.<br>• Amgylchedd glanach, mwy hylan i ddysgu ynddo.<br>• Adnoddau ychwanegol (e.e. ystafell synhwyraidd) i'r rhai ag anghenion ychwanegol.<br>• Byddai cael paneli solar yn beth da.<br><br>**Ymateb y Cyngor**<br>Mae'r holl sylwadau wedi'u nodi a'u cynnwys yn yr ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad. Bydd eu crynodeb o'r hyn yr hoffent ei weld mewn ysgol newydd yn cael ei ystyried pan fo'n briodol yn ddiweddarach. |
| 4. | Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynnig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br>• Pa effeithiau ydych chi'n credu fyddai yna?<br>• Sut gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol? | • Mwy o wersi Cymraeg a llai o wersi Saesneg, fel ein bod ni'n dod yn rhugl yn y Gymraeg yn gynharach.<br>• Mwy o wersi iaith Gymraeg yn adeilad newydd yr ysgol gan fy mod i'n teimlo bod yr iaith Gymraeg yn gyfyngedig yn ein hysgol ar hyn o bryd.<br>• Cyflogi mwy o athrawon Cymraeg ac ychwanegu mwy o wersi Cymraeg gyda mwy o ffocws ar y Gymraeg.<br>• Pob aelod o staff i fod yn ddwyieithog<br>• Rwy'n credu y dylid defnyddio'r iaith Gymraeg yn amlach ym mhob gwers a thu allan i wersi gan fod plant yn siarad llai a llai o Gymraeg.<br>• Gwella faint o siarad a dysgu Cymraeg sy'n digwydd yn yr ysgol<br>• Cael arwyddion Cymraeg ar draws yr ysgol newydd<br>• Cael posteri Cymraeg o amgylch yr ysgol<br><br>**Ymateb y Cyngor**<br>Mae Ysgol Uwchradd Caergybi ar daith i drawsnewid i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, waeth beth fo'r cynnig i adleoli dysgwyr i adeilad ysgol newydd.<br>Fodd bynnag, nodir yr ymatebion a byddant yn cael eu cynnwys yn yr asesiad effaith wedi'i ddiweddaru wrth symud ymlaen |

5.5.2 Sesiwn rithiol gyda dysgwyr ysgolion cynradd 8 Gorffennaf 2025

Cynhaliodd swyddogion y cyngor sesiwn rithiol dros TEAMS gyda chyngor ysgol y chwe ysgol yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caergybi sef:

- Ysgol Cybi
- Ysgol Kingsland
- Ysgol Llanfawr
- Ysgol Rhosneigr
- Ysgol Santes Fair
- Ysgol Y Tywyn

Rhoddwyd cyflwyniad PowerPoint addas i'r oedran i'r dysgwyr ynghylch y cynnig. Gofynnwyd iddynt roi eu barn a'u sylwadau ar y cynnig fel a ganlyn:

Isod nodir eu hymatebion **<u>cryno</u>** yn **eu geiriau eu hunain.**

| | Cwestiynau a drafodwyd | Ymatebion |
|---|---|---|
| 1. | **Beth yw eich barn chi am gael adeilad newydd? Cytuno/Anghytuno?** | Cytunodd y chwe ysgol fod angen adeilad ysgol newydd a gwnaethant y sylwadau canlynol hefyd:<br><br>• Syniad ardderchog. Bydd yn helpu gyda chostau a materion eco.<br>• Syniad da cael ysgol newydd. Ond rhaid sicrhau bod mynediad ar gyfer pawb oherwydd nid yw adeilad YUC yn addas ar hyn o bryd.<br>• Syniad da cael adeilad ysgol newydd gan fod gan yr ysgol bresennol lawer o broblemau. |
| 2.<br><br><br>3.<br><br><br>4. | **Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am y cynllun i symud plant Ysgol Uwchradd YUC i adeilad ysgol newydd?**<br><br>**Ydych chi eisiau awgrymu syniadau eraill a all helpu Ysgol Uwchradd YUC?**<br><br>**A fydd y newidiadau'n helpu plant i ddefnyddio mwy neu lai ar yr iaith Gymraeg? Os llai, beth fyddai'n helpu i gynyddu'r defnydd o'r iaith?** | Rhoddodd y dysgwyr eu sylwadau yn ogystal â'r hyn yr hoffent ei weld yn yr adeilad ysgol newydd.<br><br>**Crynodeb o'r sylwadau**<br>• Hoffi'r syniad o ysgol newydd ond rhai amheuon ynghylch y lleoliad<br>• Byddem yn hoffi ystafell synhwyraidd yn yr adeilad ysgol newydd<br>• Byddem yn hoffi gweld parc bywyd gwyllt/man chwarae ar safle'r hen ysgol.<br>• Byddem yn hoffi gardd/gardd goedwig ar y safle newydd.<br>• Rhoi enw newydd i'r ysgol yn hytrach na YUC, gan ei henwi ar ôl rhywun hanesyddol enwog/arwyddocaol o Gaergybi.<br>• Adeilad ysgol newydd – rhoi brandio iaith Gymraeg iddo i annog defnydd o'r iaith. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cwestiynau a ofynnwyd** | **Ymateb y Cyngor** |
| | Ble fydd lleoliad yr ysgol? | Mae'r safle arfaethedig (er nad yw wedi'i gadarnhau eto) gerllaw canolfan hamdden bresennol Caergybi. Mae gwerthusiad opsiynau manwl wedi'i gwblhau o safleoedd posibl yn ardal Caergybi, dyma'r unig safle sy'n bodloni'r gofynion. |
| | Allwn ni ddefnyddio'r ganolfan chwaraeon? | Os caiff yr ysgol ei hadeiladu gerllaw'r ganolfan hamdden, yna byddai trafodaethau ynghylch defnyddio eu cyfleusterau fel rhan o'r cynllun. |
| | Os yw'r ysgol newydd yn defnyddio'r Ganolfan Hamdden, oni fyddai hynny'n cyfyngu ar y defnydd gan y cyhoedd/ ysgolion cynradd? | Bydd angen cynnal trafodaethau i wneud y defnydd gorau o'r ganolfan hamdden i bawb dan sylw er mwyn sicrhau nad oes neb dan anfantais. |
| | Pa mor hir fydd hi'n ei gymryd i adeiladu'r ysgol? | Bydd y prosiect cyfan (pan fydd adeilad ysgol newydd yn agor) yn para tan fis Medi 2030. |
| | Faint fydd yr adeilad yn ei gostio? | Amcangyfrifir bod y costau'n £66 miliwn. |
| | Sut fydd disgyblion yn mynd o'r dref i'r ysgol newydd? A fydd angen bws arnoch chi? | Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cymorth teithio yn unol â Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r Cyngor yn darparu cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr ysgol uwchradd llawn amser sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch (ac eithrio dysgwyr 6ed dosbarth / myfyrwyr addysg bellach).<br>Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y polisi cludiant ysgol: https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Cludiant-ysgol/Polisi-Cludiant-Ysgol.aspx |
| | A fydd digon o raciau beiciau/sgwteri yno, ar gyfer y disgyblion sydd eisiau mynd ar feic yn lle cerdded/ar fws? | Mae'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn gysylltiedig â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod uchelgais clir i wella llwybrau cerdded a beicio i'n helpu i fodloni ein hamcanion amgylcheddol ac iechyd. Os derbynnir y cynnig, bydd cynlluniau teithio llesol yn cael eu hadolygu a'u paratoi yn unol â'r Ddeddf ar gyfer adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi unwaith y bydd safle newydd wedi'i gadarnhau |

| | | |
|---|---|---|
| | A yw 900 o leoedd yn ddigon? Bydd mwy o blant eisiau dod i ysgol newydd | Mae'r Cyngor wedi gwneud ei gyfrifiadau yn seiliedig ar ragolygon nifer y dysgwyr yn y dyfodol ac mae hefyd wedi ystyried cyfraddau geni yn unol â chyfrifiad 2021. Mae'n bwysig nodi bod rhagolygon yn anodd gan fod rhai dysgwyr yn mynychu'r ysgolion o ddalgylchoedd eraill. |

## 6 CASGLIAD

Y cynnig yr ymgynghorwyd arno oedd Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed.

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) mae'r adran hon yn egluro'r asesiad o'r cynnig, sut mae'r asesiad yn wahanol i unrhyw asesiad cynharach (os o gwbl), yr asesiad o unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol eraill a chadarnhad a ddylid gweithredu'r cynnig gwreiddiol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

### 6.1 Cadarnhad a ddylid gweithredu'r cynnig gwreiddiol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol)

Ar ôl ystyried yr holl adborth fel y'i crynhowyd yn unol â'r cod trefniadaeth ysgolion (11/2018) yn adran 5 uchod, mae'r Cyngor yn dod i'r casgliad mai'r ymateb mwyaf priodol yw adeiladu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi (y cynnig gwreiddiol).

Mae adborth gan y rhan fwyaf o randdeiliaid (79%) a ymatebodd i'r ffurflen ymateb ar-lein yn cytuno â'r cynnig ac mae'r Cyngor wedi ymateb i'r crynodeb o faterion a godwyd gan y rhai a atebodd "na" yn adran 5.

### 6.2 Argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith

Ar ôl ystyried yr ymatebion gan yr holl randdeiliaid, mae'r Cyngor o'r farn nad yw ei asesiad pellach o'r cynnig "I Adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed" yn wahanol i'r asesiad cychwynnol a wnaed. Yn hyn o beth, mae'r Cyngor yn cadarnhau mai'r ymateb mwyaf priodol yw gofyn i'r Pwyllgor Gwaith am yr awdurdod i gyhoeddi hysbysiad statudol i fwrw ymlaen â'r cynnig.

Manteision y cynnig yw:

- Dylai adeilad ysgol newydd gyda'r dechnoleg a'r adnoddau dysgu diweddaraf, sy'n addas ar gyfer y dulliau addysgu a dysgu diweddaraf a mwyaf modern, gael effaith gadarnhaol ar lesiant a phrofiad staff a dysgwyr.
- Mae tiroedd ysgol sydd wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u datblygu'n feddylgar yn cyfoethogi cyfleoedd i ddysgu a chwarae. Mae cysylltiad a chyswllt â natur yn creu emosiynau mwy cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad rhag blinder meddwl, a'r gallu i ganolbwyntio am amser hirach.
- Disgwylir y byddai cael adnoddau cymunedol pwrpasol yn yr adeilad ysgol newydd a mynediad at gyfleusterau modern yn denu mwy o ddefnydd cymunedol. Byddai'r cynnig yn galluogi'r Cyngor a'r ysgol newydd bosibl i fod yn Ysgol Gymunedol, gan adeiladu partneriaethau cryf â theuluoedd, ymgysylltu â'r gymuned ehangach a chydweithio'n effeithiol â sectorau a gwasanaethau eraill. Byddai hyn yn unol â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru. Drwy fod yn Ysgol Gymunedol, gall y lleoliad newydd hefyd weithredu fel canolfan gymunedol i helpu i gefnogi ac annog siarad Cymraeg yn y gymuned ehangach.
- Gan y gallai fod adeilad ysgol newydd, byddai'r Cyngor yn osgoi gorfod cynnal gwaith i fynd i'r afael â chost cynnal a chadw bresennol a rhagamcannol y dyfodol o bron i £29 miliwn (2024) ar yr adeilad presennol.

- Byddai'r cynnig yn arwain at arbediad yn y gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw ganolog am y 25 mlynedd nesaf (os caiff y cynllun ei gyflawni drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC))
- Byddai'n mynd i'r afael â'r camau lliniaru brys cyfredol hynny a gymerwyd yn 2023/24 oherwydd Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn 30% o adeilad yr ysgol oherwydd newidiadau i ganllawiau Llywodraeth y DU fis Awst 2023.
- Byddai gan y safle ysgol newydd posibl ei gaeau chwarae ei hun ar yr un safle â'r adeilad ysgol.
- Byddai lleoedd dros ben yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn cael eu lleihau.
- Tebygolrwydd cynyddol y bydd dysgwyr yn aros o fewn eu dalgylch oherwydd mynediad at adeilad ysgol newydd ac adnoddau modern.
- Ni ragwelir unrhyw gostau trafnidiaeth ychwanegol i'r Cyngor sy'n gysylltiedig â'r cynnig.
- Bydd adeilad yr ysgol newydd yn garbon sero net, gyda chyfleoedd ehangach i wella bioamrywiaeth ar y safle arfaethedig.

## 7 ADRODDIAD ESTYN

**Ymateb Estyn i'r cynnig i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed.**

**Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.**

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion. **Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.**

Y cynnig yw adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed.

**Crynodeb / Casgliad**

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o wella safon y ddarpariaeth addysg a'r deilliannau ar gyfer disgyblion yn yr ardal, o leiaf.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer ei gynnig, sef adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed erbyn 2030. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu ar dir ger Canolfan Hamdden Caergybi, yn amodol ar gaffael tir yn llwyddiannus.

Ymddengys bod adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi mewn cyflwr gwael (Gradd C yn ôl graddfa categoreiddio cyflwr adeiladau Llywodraeth Cymru), gydag angen gwaith atgyweirio gwerth £29 miliwn a phroblemau hygyrchedd sylweddol. Yn ei sefyllfa bresennol, mae'n ymddangos bod 29% o leoedd dros ben, a diffyg caeau chwarae addas i ddysgwyr. Yn ychwanegol, dengys bod yr ysgol yn ei ffurf bresennol yn ynni-ddibynadwy iawn ac yn un o'r deg uchaf ar gyfer allyriadau carbon ymhlith asedau'r Cyngor.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu disgrifiad priodol o'r cynnig, sy'n cynnwys amserlen ddisgwyliedig ar gyfer y gweithdrefnau statudol. Mae'n cynnig adeiladu ysgol newydd ar gyfer 900 disgybl, gyda 750 o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 7 i 11 yn ogystal â 150 o lefydd ar gyfer darpariaeth Ôl-16. **Bydd yr ysgol yn cael ei hadeiladu ger Canolfan Hamdden Caergybi ac mae'n ymddangos bod y cynllun am gostio £66 miliwn, gyda 65% o'r gost yn gyfraniad gan Lywodraeth Cymru a 35% yn gyfraniad gan y Cyngor**.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n glir, ac yn deg, y manteision a'r anfanteision disgwyliedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Un o'r prif fanteision yw y byddai'n mynd i'r afael a'r gwaith lliniaru brys cyfredol a wnaethpwyd yn 2023-2024 oherwydd bod Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) o fewn 30% o adeilad presennol yr ysgol. Yn ogystal, mae'n cynnig yn debygol o arwain at arbediad yn y gyllideb atgyweirio a

chynnal a chadw ganolog am y 25 mlynedd nesaf. Noda'r cynigiwr bydd yr adeilad ysgol newydd yn garbon sero net a bod cost cynnal a chadw presennol a rhagamcannol o bron i £29 miliwn ar yr adeilad presennol.

Ymddengys y byddai gan yr adeilad newydd gyfoeth o adnoddau cyfoes, labordai gwyddoniaeth a thechnoleg sy'n addas ar gyfer y dulliau addysgu diweddaraf. Mae'n debygol y byddai hyn yn ei dro yn cael effaith gadarn ar les a deilliannau'r dysgwyr. Yn ychwanegol, mae'n cynnig y byddai gan y safle ysgol newydd ei gaeau chwarae ei hun a fydd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i feithrin lles, medrau corfforol dysgwyr a'u dysgu yn barhaus. Bydd yn fodern, hygyrch i bob dysgwr a nodir y bydd swyddfeydd a mannau i ateb anghenion staff a dysgwyr yno hefyd. Mae'n debygol y bydd Ardal Chwaraeon Aml ddefnydd (MUGA) ar gael i ddysgwyr, a fydd yn annog cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden yn bwrpasol.

Mantais arall yw'r tebygolrwydd cynyddol y bydd dysgwyr yn aros o fewn eu dalgylch oherwydd eu bod yn cael mynediad i adeilad ysgol newydd, maint dosbarthiadau mwy ac adnoddau modern i gefnogi eu lles a'u dysgu. Ni fydd unrhyw gost cludiant ychwanegol yn gysylltiedig â'r cynnig, ac ar hyn o bryd, mae dysgwyr rhwng 16 a 18 oed yn teithio am gyfnodau estynedig yn ystod y diwrnod ysgol gan fod rhai pynciau yn cael eu dysgu gan ddarparwyr amgen.

Mae'r cynigiwr yn amlinellu'r disgwyl i gael adnoddau cymunedol pwrpasol yn adeilad yr ysgol newydd a mynediad at gyfleusterau modern i ddenu mwy o ddefnydd cymunedol. O ganlyniad, mae'n ymddangos y byddai'r cynnig yn galluogi'r Cyngor a'r ysgol newydd arfaethedig i fod yn Ysgol Fro, gan feithrin partneriaethau cryf â theuluoedd, darparu cyfleoedd ystyrlon i ymgysylltu â'r gymuned ehangach a chydweithio'n effeithiol â sectorau a gwasanaethau eraill. Yn ychwanegol, mae'n bosibl gall y lleoliad newydd weithredu fel canolbwynt cymunedol ar gyfer helpu i gefnogi ac annog pobl a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ehangach.

Dengys bod ychydig o anfanteision i'r cynnig a risgiau cysylltiedig, a disgrifir mesurau clir a chyraeddadwy i liniaru'r rhain mewn ymateb i'r cynnig. Mae'n debygol y bydd peth ansicrwydd i ddysgwyr a staff. Mae'r cynigiwr yn amlinellu yn agored mai o ganlyniad i lai o gapasiti y bydd angen llai o staff. Bydd angen sicrhau cyfathrebu parhaus â staff ac undebau i'w cadw'n gwbl wybodus am ddatblygiadau. Dengys hefyd yr angen i ddod a dysgwyr ynghyd i safle newydd mewn modd sensitif a gofalus er mwyn sicrhau dilyniant yn eu haddysgu a'u dysgu. O ran lles, gofal ac iechyd, gall disgyblion sydd eisoes wedi arfer ag adeilad presennol yr ysgol ei chael hi'n anodd symud i ysgol newydd. Yn ogystal, mae'n debygol os yw'r pellter yn fwy na'r pellter presennol i rai dysgwyr gall gael effaith andwyol ar gyfraddau presenoldeb. Yn ychwanegol, gall fod oedi o ran ariannu ac adeiladu'r ysgol newydd, a'r posibilrwydd o dderbyn gwrthwynebiad i'r adeilad newydd gan drigolion, grwpiau amgylcheddol neu rhanddeiliaid. Ymddengys mai anfantais arall yw, os yw nifer y ceisiadau yn fwy na chapasiti'r ysgol, o bosib y bydd mwy o apeliadau derbyn. O ran heriau ariannol tebygol, ymddengys y bydd costau ychwanegol o tua £26,000 trwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol.

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried pump opsiwn amgen arall, gan nodi rhesymeg glir dros beidio â'u dewis. Mae'n ymddangos mai adleoli dysgwyr Ysgol UwchraddCaergybi yw'r opsiwn y ffefrir orau er mwyn mynd i'r afael â'r gyrwyr allweddol ar gyfer newid, a'r heriau allweddol ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi. Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio disgyblion ac ar hygyrchedd y ddarpariaeth

yn briodol. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod 42.5% o ddysgwyr sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill ar yr ynys neu yng Ngwynedd. Rhagwelir y gall costau cludiant leihau oherwydd ni fydd angen i'r dysgwyr hynny sy'n dymuno cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gwbl ddwyieithog gael eu cludo allan o ddalgylch eu hysgol i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg agosaf. Darperir cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr ysgol uwchradd llawn amser sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch, ag eithrio dysgwyr chweched dosbarth. Os bydd y cynnig yn cael ei dderbyn, rhagwelir bydd cynlluniau teithiau llesol yn cael eu paratoi yn unol â'r Ddeddf ar gyfer adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi.

The Mae'r awdurdod lleol wedi dangos effaith y cynnig ar leoedd dros ben yn briodol. Ers Medi 2024, mae nifer y dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch yn isel yn Ysgol Uwchradd Caergybi (4.5% o ddysgwyr). Mae'r cynigiwr yn amlinellu'n glir beth yw rhagamcanion y bum mlynedd nesaf o ran lleoedd dros ben, sy'n cyrraedd posibilrwydd o 37.4% o leoedd erbyn Medi 2029. Mae'r rhagamcanion yn cadarnhau bod disgwyl i nifer y dysgwyr yn Ysgol Uwchradd Caergybi ostwng. Mae'r awdurdod hefyd yn amcangyfrifir y bydd o bosib tua 80 o ddysgwyr yn mynychu'r ysgol yn sgîl codi tai newydd. Mae'n debyg pe bai'r holl ddarpariaeth tai yn cael ei gwireddu, byddai digon o leoedd o hyd yn adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi.

Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr awdurdod lleol. Mae'r cynigiwr yn nodi y byddai'r cynnig yn gwarchod ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn Ysgol Uwchradd Caergybi a'i dalgylch gan fod wyth o'r naw ysgol gynradd y dalgylch wedi'u dynodi'n rhai cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynigwyr yn nodi y byddai'r cynnig yn arwain at hybu dysgwyr i aros o fewn eu dalgylch i gael addysg gwbl ddwyieithog yn lle mynd i ysgol uwchradd amgen gyfagos. Tybir na fydd angen i ddysgwyr deithio i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg gyfagos mwyach pan fydd yr adeilad newydd yn agor yn 2030. Mae'n debygol y byddai unrhyw staff newydd a gaiff eu recriwtio yn siaradwyr Cymraeg yn unol â'r polisi iaith ac yn cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn damcaniaethu ymhellach wrth nodi y byddai pan fydd dysgwyr yn gadael yr ysgol, byddant yn gwbl ddwyieithog a fydd yn ei dro yn cyfrannu'n fwriadus at warchod y Gymraeg yn eu cymunedau. Mae'n cynnig hefyd y bydd yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau ar ôl ysgol, yn ogystal ag yn y clybiau gofal plant a brecwast cyn ysgol.

Mae Ysgol Uwchradd Caergybi ar hyn o bryd wedi'i chategoreiddio fel ysgol sy'n addysgu trwy gyfrwng y Saesneg gydag addysgu sylweddol trwy gyfrwng y Gymraeg (categori T3). Mae'r ysgol yn y categori trosiannol hwn ac wedi dechrau ar y broses uchelgeisiol o drosglwyddo i gategori 3 o fewn cynllun pum mlynedd, sef y Gymraeg fel y prif iaith addysgu. Mae'r cynigiwr yn nodi'n glir bod newid categori yn fwriad ar wahân i'r cynnig hwn, ond os cytunir ar y cynnig, mae'n ymddangos y bydd yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg dros amser.

Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol y cynnig. Mae'n ymddangos mai amcangyfrif o'r gost a ragwelir yw £65.9 miliwn, a chaiff hwn ei ariannu'n rhannol gan y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Er hyn, mae'r gost cynnal a chadw gyfredol ac rhagamcanol ar yr adeilad presennol yn bron i £29 miliwn. Rhagdybir y bydd gwerthu Ysgol Uwchradd Caergybi yn rhyddhau derbyniadau cyfalaf tuag at gost adeiladau adeilad newydd. Mae'n cynnig na fydd costau cludiant ychwanegol, ac yn ogystal, yn arwain at arbediad o thua £45,798 yn erbyn y gyllideb

ganolog Atgyweirio a Chynnal a Chadw am y 25 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r cynigiwr yn rhagweld y bydd cost ychwanegol o £26,000 trwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol.

Her gyllidol ychwanegol posib a amlinellir yn y cynnig yw pe bai'r cynllun yn cael ei gyflwyno drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC), byddai cyfraniad y Cyngor (amcangyfrifir 17%) tuag at y Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn arwain at gost refeniw ychwanegol o tua £1.3 miliwn y flwyddyn i'r Cyngor ei ariannu ar gyfer blynyddoedd 1 – 25 a thua £94,000 i £141,000 ar gyfer blynyddoedd 26-60. Mae'n debygol bydd gofyniad y gyllideb ysgolion ddirprwyedig yn debygol o gynyddu tua £26,000 y flwyddyn os caiff y cynnig ei weithredu. O ran costau trosiannol tymor byr y bydd angen eu hariannu, mae'r cynigiwr yn nodi gallai'r rhain gynnwys cost untro ychwanegol i ryddhau aelod o uwch dîm arwain yr ysgol cyn agor adeilad newydd yr ysgol. Yn ychwanegol, mae'n debygol y bydd costau eiddo ar gyfer yr adeilad caeedig nes iddo gael ei waredu. Amcangyfrifir y bydd y gost drosiannol oddeutu £8,000 y flwyddyn o 2025-26 – 2027-28, tua £19,000 yn 2028-29, tua £177,000 yn 2029-30 pan fydd yr adeilad ysgol newydd yn agor ac o gwmpas £115,000 y flwyddyn o 2030-31 hyd nes y trosglwyddir yr eiddo ysgol presennol o berchnogaeth y Cyngor.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r awdurdod yn ystyried yn ddefnyddiol effaith y cynnig ar ansawdd a safonau addysg. Mae'r cynigiwr yn nodi y byddai'r ysgol newydd yn bodloni safonau 'Cymuned Gynaliadwy' a fydd yn amgylchedd dysgu ysbrydoledig i ddysgwyr. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai'r ysgol newydd yn cael ei chynllunio i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn bwrpasol. Ymddengys fod gan yr ysgol bresennol amgylcheddau dysgu allanol cyfyngedig ar gyfer hyrwyddo dysgu annibynnol dysgwyr. Disgwylir i safonau o leiaf gael eu cynnal neu eu gwella yn yr adeilad newydd. Mae'n debygol y gallai adeilad ysgol newydd ddarparu adnoddau modern arbenigol ychwanegol, a mannau gwyrdd awyr agored i ddiwallu anghenion y cwricwlwm a chyfoethogi'r ddarpariaeth a phrofiadau'r dysgwyr. Yn unol a'u trefniadau gyda ysgolion eraill yr awdurdod, mae'n ymddangos bydd yr ysgol newydd yn derbyn yr her a'r gefnogaeth arferol o ran addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth.

O ran llesiant ac agweddau at ddysgu, mae'r cynnig yn nodi y byddai amgylchedd yr ysgol newydd ynghyd â mannau gwyrdd awyr agored pwrpasol yn debygol o wella lles corfforol ac emosiynol dysgwyr yn ogystal a gwella llesiant staff. Mae'n debygol na fydd unrhyw newid arwyddocaol mewn darpariaeth a threfniadau cymorth, gofal ac arweiniad i ddisgyblion. Nododd adroddiad Estyn yn Chwefror 2025 yn rhannol, 'Ceir diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac mae bron bob un ohonynt yn gwybod ble i fynd i gael cymorth, osoes angen.'

**Os caiff y cynnig ei weithredu, mae'n ymddangos efallai y bydd angen adolygu'r strwythur arweinyddiaeth a rheolaeth presennol. Os yw ar leoliad mwy, mae'n debygol y bydd angen mwy o reolaeth safle. Nid yw hi'n glir o'r cynnig os fydd y tîm arweinyddiaeth yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad gan yr awdurdod lleol i sicrhau fod arferion gorau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael eu mabwysiadu.**

Darperir disgrifiad defnyddiol o effaith y cynnig ar y gymuned ac ar grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'n ymddangos y byddai'r cynnig yn arwain at newid amgylchedd dysgu Ysgol Uwchradd Caergybi fel

bod dysgwyr a staff anabl yn gallu cael mynediad llawn i'r holl adeilad arfaethedig. Er hyn, cydnabyddir y gallai'r newid fod yn fwy heriol i rai dysgwyr ag ADY ond mae'r cynigiwr yn nodi byddant yn ymdrechu i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl gan gynorthwyo dysgwyr yn ystod y cyfnod wrth drosglwyddo i'r darpariaeth newydd. Yn ychwanegol, nodir y byddai'r awdurdod yn cael cyngor gan dimau penodol i nodi a gweithredu strategaethau perthnasol er mwyn hwyluso'r trosglwyddiad. Mae'r cynnig yn amlygu y byddai asesiad o anghenion yn cael ei gynnal i nodi'r lefel a'r math o gymorth sydd ei angen er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'n debygol y byddai unrhyw ddysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Caergybi ar hyn o bryd yn parhau i gael y lefel o gymorth sydd ei angen i ddiwallu eu hanghenion addysgol unigol yn adeilad newydd yr ysgol.

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

## Moderneiddio Ysgolion – Cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer adeilad newydd i Ysgol Uwchradd Caergybi i Lywodraeth Cymru
## School modernisation - Presenting the Strategic Outline Case for a new school building for Ysgol Uwchradd Caergybi to Welsh Government

### PRAWF BUDD Y CYHOEDD
### PUBLIC INTEREST TEST

| | |
|---|---|
| **Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972**<br><br>**Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972** | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd **wrth ddatgan** oherwydd:<br><br>Mae moderneiddio stoc ysgolion ar Ynys Môn yn bwysig i drigolion Ynys Môn er mwyn sicrhau fod holl ysgolion yr Ynys yn addas at y pwrpas.<br><br>*There is a public interest **in disclosure** as:*<br><br>*Modernising the school estate on Anglesey is important to Anglesey residents in order to ensure that all school buildings are fit for purpose.* | Y budd i'r cyhoedd **wrth beidio** datgelu yw:<br><br>Gall yr wybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol roi'r Cyngor dan anfantais pan mae'n dod i osod contractau ac ati ar gyfer gwaith i'r dyfodol.<br><br>*The public interest **in not disclosing** is:*<br><br>*Information relating to financial issues could put the Council at a commercial disadvantage when it comes to awarding contracts etc. for future work.* |
| **Argymhelliad** -Yn rhinwedd Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>-Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol. (Gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno).<br><br>**Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.**<br><br>***Recommendation*** *- By Virtue of Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972*<br>*-Information relating to the financial or business affairs of any particular person (including the authority holding that information).*<br><br>***The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.*** | |

PG 21-10-25

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank